# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 24 IONAWR 2022 am 9:30 y.b. | | MONDAY, 24 JANUARY, 2022 at 9:30 a.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Gary Pritchard, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
*Gwag/Vacant* (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021.

**3** **GOSOD CYLLIDEB REFENIW 2022/23** (Tudalennau 7 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**4** **GOSOD CYLLIDEB GYFALAF 2022/23**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5** **PANEL SGRIWTINI CYLLID - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD**

Derbyn adroddiad ar lafar gan Gadeirydd y Panel.

**6** **STRATEGAETH DAI LEOL 2022-27** (Tudalennau 27 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**7** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 77 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Gary Pritchard, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chymunedau)<br>Y Cynghorydd R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)<br>Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Owain Jones, Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig), Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Gymraeg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid) |

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CHWARTER 2 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes y Cyngor, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn nodi sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2021/22yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd ac y cytunwyd arnynt yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae mwyafrif y dangosyddion perfformiad Iechyd Corfforaethol (70%) yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn) ac mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn parhau i fod yn llwyddiannus yn ystod y pandemig. Mae'r dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i berfformio'n dda ac eithrio dangosydd 04b mewn perthynas â chanran yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol a anfonir cyn pen 15 diwrnod sydd yn 58% ar hyn o bryd ac yn is na'r targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaeth ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r 50% a welwyd yn Ch1 ac mae'n galonogol bod 18 allan o'r 19 o gwynion a dderbyniwyd wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod gwaith. Er bod perfformiad mewn perthynas â phresenoldeb yn y gwaith yn Ambr ar ddiwedd Chwarter 2 gyda 4.09 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALI, gosodwyd targed mwy heriol eleni ac o ystyried y perfformiad hwn yng nghyd-destun y targed o 4.25 diwrnod wedi'i golli am bob CALI a osodwyd ar gyfer y ddwy flwyddyn flaenorol, heb y newid hwn byddai'r perfformiad hwn wedi bod yn Wyrdd. Mae mwyafrif y Dangosyddion Perfformiad (84%) yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed ac am y tro cyntaf nid oedd gan dau o'r tri Amcan Llesiant yr un dangosydd a oedd yn tanberfformio'n ambr neu'n goch yn erbyn eu targedau. Cymysg fu'r perfformiad yn erbyn dangosyddion Amcan Llesiant 3 yn gyffredinol (Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newidiadau a datblygiadau wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol) gyda 57% o'r targedau'n tanberfformio. Mae pedwar dangosydd mewn perthynas â rheoli gwastraff a chynllunio yn Goch neu Ambr ac mae manylion pellach ynglŷn â'r mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ar hyn o bryd mae adran rheoli cyllid y cerdyn sgorio yn darogan tanwariant o £0.858m ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth, 2022.Caiff rheolaeth ariannol ei fonitro drwy adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith.

Ymatebodd yr Aelodau Portffolio a Swyddogion i gwestiynau a phwyntiau a godwyd ar yr adroddiad cerdyn sgorio fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â phryderon am y gostyngiad yng nghanran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio, yn benodol y gostyngiad yn nhunelledd y gwastraff gwyrdd a gasglwyd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21 ac awgrym bod gyflwyno ffi am gasglu gwastraff gwyrdd yn wrthgynhyrchiol, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y gostyngiad o ganlyniad i nifer o resymau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae'r materion hyn yn cael eu goruchwylio gan y grwp llywio a sefydlwyd gyda WRAP Cymru a CLILC yn Chwarter 1 i edrych ar yr holl agweddau a gweithdrefnau yn ymwneud ag ailgylchu gwastraff ac ar ôl cyfarfod am y tro cyntaf maent yn y broses o ddadansoddi'r data sydd ar gael a datblygu opsiynau ar y ffordd orau o gyrraedd y targed o 70% erbyn 2025. Mae'r ffi gwastraff gwyrdd wedi cynhyrchu incwm o £500k i'r Cyngor, sef y Cyngor olaf yn y rhanbarth i gyflwyno ffi am wasanaeth casglu gwastraff gwyrdd. Roedd y ffi yn rhan o'r contract casglu gwastraff newydd gyda Biffa; ac oni bai bod y ffi wedi cael ei gyflwyno byddai wedi bod yn orfodol cynyddu'r Dreth Gyngor 0.5% a fyddai wedi effeithio ar bawb tra bo'r ffi



DRAFT

am gasglu gwastraff gwyrdd yn berthnasol i'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn unig.

- Mewn perthynas â phryderon parhaus am ymatebolrwydd system teleffon y Cyngor a'r goblygiadau ar foddhad cwsmeriaid sy'n cyfathrebu â'r Cyngor, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r trefniadau newydd ar waith erbyn Chwarter 3 ac y byddai'r Pwyllgor yn cael diweddariad ar y lefelau boddhad cwsmer wedi hynny. Erfyniwyd ar yr Aelodau i ddarparu manylion am unrhyw gwynion ynghylch galwadau nad oedd wedi eu hateb a chawsant eu hatgoffa bod cais hefyd wedi'i wneud yng nghyfarfodydd yr Arweinwyr Grŵp. Er y cydnabuwyd bod bob amser lle i wella mae'r Cyngor bob amser yn derbyn nifer uchel o alwadau, tua 8,000 i 9,000 o alwadau'r mis.
- Mewn perthynas â phryderon ynglŷn â'r pwysau cynyddol ar y Gwasanaethau Plant wrth inni nesáu at fisoedd y gaeaf a chydnabod risgiau parhaus y pandemig, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu diweddaru pob chwe mis ar berfformiad a chynnydd y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid yn duedd sydd i'w gweld ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru ac mae atgyfeiriadau yn cynnwys achosion mwy cymhleth a all gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, yn dilyn rhaglen o welliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion, yn dilyn cadarnhad gan adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru, bellach mewn sefyllfa fwy cadarn i ymateb i'r heriau y maent yn eu hwynebu sydd hefyd yn golygu bod y plant sydd dan ofal yr Awdurdod yn derbyn gwell gwasanaeth.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2021/22 a'r diweddariadau gan y Swyddogion yn ystod y cyfarfod, penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi'r gwelliannau y mae'r Uwch Dîm Rheoli'n ceisio'u sicrhau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD PANEL SGRIWTINI CYLLID

Rhoddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Ariannol ddiweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod o'r Panel ar 28 Hydref, 2021 a oedd yn cynnwys darparu trosolwg i'r Panel o'r canlynol –

- Mae'r heriau ariannol a wynebir gan y Gwasanaethau Oedolion yn bennaf oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn gyffredinol ac yn sgil y pandemig wedi arwain at bwysau cyllidebol ar y gwasanaeth Oedolion. Mae'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n amserol o'r ysbyty er mwyn i fwy o welyau fod ar gael yn cynyddu'r galw am becynnau gofal cymdeithasol i bobl fregus iawn sydd yn golygu bod costau'r Gwasanaeth Oedolion yn cynyddu. Er y cydnabyddir mai cyfyngedig yw'r posibilrwydd o liniaru'r pwysau ariannol ar y Gwasanaeth Oedolion gan fod yn rhaid cwrdd â'r galw, roedd y Panel o'r farn bod angen system fwy cadarn â ffocws cymunedol sydd ddim mor ddibynnol ar adeiladau nad ydynt yn addas i'r diben erbyn hyn a bod profiad y defnyddiwr gwasanaeth yn bwysicach na'r adeilad lle darperir y gwasanaeth. Bydd y Panel yn parhau i edrych ar yr agwedd hon ynghyd â'r heriau eraill yn y Gwasanaeth Oedolion wrth symud ymlaen.
- O ran cynnal a chadw priffyrdd a ffyrdd mae nifer o bryderon ynghylch cyflwr ffyrdd di-ddosbarth yr Ynys yn enwedig pan fyddant dan amodau gaeafol. Ystyriwyd y broses ar gyfer blaenoriaethu a chlustnodi gwariant cyfalaf ar gyfer ffyrdd a rhoddwyd sicrwydd i'r Panel drwy'r wybodaeth a ddarparwyd bod y broses yn un rhesymol o ystyried ei bod hi'n amhosibl atgyweirio pob twll yn y ffordd gyda'r adnoddau sydd ar gael. Nododd y Panel y byddai angen cyllid o tua £7.2m i ddod â'r rhwydwaith ffyrdd leol i'r safon yr hoffai'r Cyngor ei weld, a chydnabuwyd bod cyllid annigonol yn ffactor cyfyngol. Roedd y Panel yn fodlon bod y Gwasanaeth Priffyrdd yn gwneud popeth o

fewn ei allu gyda'r cyllid sydd ar gael iddo, i gynnal a sicrhau defnyddioldeb ffyrdd yr Ynys.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn dilyn ei gyfarfod ar 28 Hydref, 2021 a diolch i Gadeirydd y Panel, y Cynghorydd Dafydd Roberts am yr wybodaeth.**

## 5 CYNLLUN TROSIANNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol, adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cynllun Trosiannol. Mae'r Cynllun yn nodi'r blaenoriaethau a dyheadau allweddol ar gyfer y cyfnod adfer yn syth wedi'r pandemig a bydd yn pontio'r cyfnod rhwng Cynllun cyfredol y Cyngor a'r Cynllun diwygiedig/newydd a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y weinyddiaeth newydd wedi Mai, 2022. Bydd hefyd yn darparu'r paramedrau gweithredol er mwyn i Swyddogion allu cyflawni ffrydiau gwaith allweddol dros y 12 mis nesaf. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Cynllun yn cydnabod bod y Cyngor yn mynd i mewn i gyfnod trosiannol a'i fod wedi'i ddylunio i helpu'r Cyngor gynllunio ar gyfer y normal nesaf gan barhau i fod yn ddigon hyblyg i addasu ac ymateb i gyfleoedd ac unrhyw anawsterau a all godi. Dylid cydnabod wrth ddarparu fframwaith a llwybr ar gyfer symlyn ymlaen yn dilyn Covid-19, y gall nifer o faterion y tu hwnt i reolaeth y Cyngor effeithio ar ei allu i gyflawni amcanion y Cynllun ac y bydd yr elfen hon o ansicrwydd yn parhau. Fodd bynnag, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o'r farn ei bod hi'n amserol rhoi cynllun trosiannol ar waith er mwyn ailosod a/neu adnewyddu'r cyfnod cyn y pandemig a hefyd ystyried effaith y pandemig a'r newidiadau a ddaeth yn ei sgil mewn sawl maes, i sicrhau bod y Cyngor yn ddiweddar a chyfredol ac y gall ganolbwyntio ar faterion allweddol rhwng nawr a diwedd tymor y Cyngor presennol. Bydd y fframwaith yn dal i fod yn ei le hyd nes y penodir Cyngor newydd ym mis Mai, 2022 a chyn iddo allu mabwysiadu cynllun corfforaethol newydd. Mae'r Cynllun wedi'i enwi'n gynllun trosiannol yn hytrach na chynllun adfer ac mae'n seiliedig ar y dybiaeth na fydd cyllid sylweddol newydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer ei weithgareddau adfer ac felly mae'n rhaid gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys cynlluniau cyllid grant a thrwy barhau i ddosbarthu cyllid grant i sefydliadau eraill. Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i fod yn syml a hawdd i'w ddeall fel bod pawb yn glir ynglŷn â chyfarwyddyd ac arweiniad y Cynllun a'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni drwy'r Cynllun, ac i sicrhau bod trigolion, aelodau etholedig, rheoleiddwyr, partneriaid a staff yn deall bwriad y Cyngor yn ystod cyfnod trosiannol anodd ac ansicr. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar 3 prif amcan yn ymwneud â'r economi, yr amgylchedd a gwasanaethau cymunedol allweddol ac o dan yr amcanion hyn mae nifer o dasgau uchelgeisiol a heriol wedi'u nodi yn ychwanegol i ddyletswyddau statudol a busnes dydd i ddydd y Cyngor. Bydd unrhyw sylwadau ar gynnwys y Cynllun yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun a bydd yn cael ei addasu'n briodol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor Llawn.

Croesawyd y Cynllun gan y Pwyllgor fel Cynllun sydd yn rhoi gweledigaeth glir ar gyfer symud drwy'r broses rheoli argyfwng tuag at ailddechrau'r normalrwydd newydd. Bu i'r Arweinydd a'r Dirprwy Brif Weithredwr ymateb i'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r Cynllun fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio i'r eithaf ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ei asedau a'i chymunedau ar yr un pryd a'r angen i reoli twristiaeth er lles yr Ynys a'i heconomi ac atgyfnerthu adain dwristiaeth y Cyngor, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod dod o hyd i ffyrdd o gefnogi twristiaeth wedi'i gydnabod fel prif ymrwymiad ynghyd â chryfhau capasiti adain dwristiaeth y Cyngor, er bod llenwi swyddi gwag yn her yn yr hinsawdd bresennol. Mae cyswllt rheolaidd rhwng y sector twristiaeth, sydd yn awyddus i weithio ochr yn ochr â'r Cyngor, i ddod o hyd i wahanol ffyrdd o gefnogi'r sector wrth symud ymlaen.

- Mewn perthynas â chynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis gofal ac addysg ledled yr Ynys, mae risg i'r ddarpariaeth cartrefi gofal preswyl pe byddai Llywodraeth Cymru'n penderfynu mabwysiadu'r un dull â'r dull sydd ar waith yn Lloegr sy'n mynnu bod rhaid i weithwyr cartrefi gofal fod wedi'u brechu'n llawn. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu hyd yma nad yw'n bwriadu mabwysiadu'r un dull â Lloegr drwy fynnu bod staff cartrefi gofal wedi cael dau frechlyn ar y sail nad yw'n hanfodol gosod yr un mandad yng Nghymru gan fod nifer uchel o staff iechyd a chartrefi gofal yng Nghymru wedi eu brechu'n llawn.
- Mewn perthynas ag amserlenni, os ydi'r Cynllun Trosiannol yn cymryd lle'r Cynllun Corfforaethol a'i gyfnod o 12 mis bydd yn ymrwymo'r Cyngor newydd i'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor  na fyddai'r Cynllun Trosiannol yn disodli'r Cynllun Corfforaethol a'i fod wedi'i gynllunio fel cynllun pontio oherwydd yr amgylchiadau anarferol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn dilyn 18 mis o ddelio â'r pandemig ac wrth symud tuag at ryw fath o normalrwydd yn ymwneud â'i holl fusnes.  Er bod yr amserlen o 12 mis yn darparu fframwaith i'r Cyngor weithio a chynllunio, wedi Mai 2022 fe all y weinyddiaeth newydd ddewis parhau ag o neu beidio. Mae'r cynllun yn rhoi eglurder  ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y 12 mis nesaf hyd nes y caiff Cynllun Corfforaethol newydd ei fabwysiadu.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Cynllun Trosiannol ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cael ei fabwysiadu.** *(Bu i'r Cynghorydd A.M. Jones atal ei bleidlais).*

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH 2021/22

Cafodd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 ei gyflwyno i'w ystyried.

Eglurodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd rhaid aros am wybodaeth ynglŷn â setliad ariannol arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 cyn pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod i ymgynghori ar gyllideb 2021/22.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd A. M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr, 2022** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2022/23 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol drafft ar gyfer 2022/23** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r Holl Aelodau Etholedig** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad).

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor newydd i gyflawni ar Gynllun Trosiannol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2022/23:

i. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar gael i'r Pwyllgor ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a'r setliad cyllidol drafft ar gyfer 2022/23, ydy'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i'r pwysau a'r heriau yn wynebu Gwasanaethau?

ii. A yw'r Pwyllgor yn ystyried y bydd unrhyw gynigion arbedion yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau sydd wedi'u gwarchod? A yw'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau sydd wedi'u diogelu?

iii. Ydy'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 2% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23? Os ddim, a ddylai'r cynnydd fod yn uwch neu'n îs na'r hyn a argymhellir gan y Pwyllgor Gwaith?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol a pha wasanaethau i fuddsoddi ynghyd a hefyd i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun Trosiannol y Cyngor.

### 2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2022/23

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 **(ATODIAD 1)** a fydd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022.

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
- Y setliad cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23
- Y pwysau cyllidebol y mae'n rhaid caniatau ar eu cyfer yng nghyllideb 2022/23
- Cynigion ar gyfer buddsoddi i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth
- Y risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 2022/23
- Lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor sydd ei angen i osod cyllideb gytbwys
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth, 2022.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2022/23**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod diwethaf (20 Ionawr, 2022). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

5.1 Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, mae'n bosibl i'r Cyngor ystyried buddsoddi i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth. Mae lefel y buddsoddiad yn ddibynnol ar lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor. Oherwydd bod y Setliad Cychwynnol wedi'i dderbyn mor hwyr yn y flwyddyn, mae'r amser ar gael i ymgynghori ar gynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith yn fyr iawn.

5.2 Bydd yr ymgynghoriad yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor, y risgiau ariannol a'r materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Bydd hefyd yn ceisio barn trethdalwyr Ynys Môn ar gynnig y Pwyllgor Gwaith i fynd i'r afael â'r risgiau hynny drwy ail-

fuddsoddi mewn gwasanaethau a ariennir yn rhannol gan gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Bydd canlyniad y broses ymgynghori yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini[2] a hynny cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu ar ei gynnig terfynol ar 3 Mawrth, 2022.

5.3 Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am gyfnod o bythefnos rhwng 25 Ionawr ac 8 Chwefror, 2022.

**6. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2022/23 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft ac unrhyw gynigion buddsoddi. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft cychwynnol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[3] ar gynigion drafft y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2022/23 hyd yma, cynigir y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol cychwynnol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion cyllideb arfaethedig ar 24 Ionawr, 2022
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion cychwynnol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23 |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/22, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y cyllidebau refeniw. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1** Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23 |

[2] Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w gynnal ar 28 Chwefror, 2022
[3] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2022

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 IONAWR 2022** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN W WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2022, ond, ar hyn o bryd argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m;
- Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46;
- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig cychwynnol a'r cynnydd yn y dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymud 2022/23, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig y manylir arni yn yr adroddiad hwn. Roedd yr opsiynau yn rhoi ystyriaeth i lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau yn gysylltiedig â lefel y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau Gwasanaethau a chodi'r Dreth Gyngor.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch - A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb yw hwn a bydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo cyllideb derfynol 2022/23. Wrth lunio'r cynigion ar gyfer y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Mae manylion unrhyw gynigion arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Mae / bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn destun proses ymgynghori a rhoddir ystyriaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw cyn cytuno ar y gyllideb derfynol a'i chyflwyno i'r Cyngor llawn ei chymeradwyo. |
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23 yn rhoi ystyriaeth i'r effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn arwain at gynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd trethdalwyr Ynys Môn yn ei thalu. Mae'r rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys i dderbyn cymorth trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a dylai hynny olygu na fydd effaith ariannol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn gyfyngedig. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae sylwadau'r UDA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r UDA a rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed pan drafodwyd yr adroddiad hwn yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff yn cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig yn cael eu trafod â'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig yn cael eu trafod â'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| 9 | **Cyrff Allanol / Arall** | |

| **F -** | **Atodiadau:** |
|---|---|

- Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Refeniw Ddrafft 2022/23
- Atodiad 2 - Cyllideb Arfaethedig 2022/23 fesul Gwasanaeth

| **Ff -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach):** |
|---|---|

- Cynllun Ariannol Tymor Canol 2022/23 – 2024/25 – Gweler Rhaglen cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi 2021 – Eitem 6

## CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2022/23

### 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Mae’r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb refeniw dros dro y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23. Paratoir y gyllideb ar sail y rhagdybiaethau a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 23 Rhagfyr 2021, a’r arbedion refeniw arfaethedig a nodwyd gan y gwasanaethau unigol ac a drafodwyd yn y gwahanol weithdai a gynhaliwyd yn ystod yr haf a’r hydref.

**1.2.** Yna bydd y gyllideb dros dro a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gwaith yn destun proses ymgynghori gyhoeddus ffurfiol, a fydd yn rhedeg o 25 Ionawr 2022 hyd at 8 Chwefror 2022.

**1.3.** Ar ôl derbyn ffigyrau’r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2022, adolygir y cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb gan y Pwyllgor Sgriwtini ar 28 Chwefror 2022, a bydd y gyllideb yn cael ei hargymell i’w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022, gyda’r gyllideb derfynol ar gyfer 2022/23 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

### 2. PRIF RAGDYBIAETHAU YN CODI O’R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL

**2.1.** Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn nodi nifer o ragdybiaethau ac mae’r rhagdybiaethau hyn wedi’u hystyried wrth gyfrifo’r gyllideb ddisymud ar gyfer 2022/23. Mae’r gyllideb ddigyfnewid yn gyllideb sy’n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar lefelau 2021/22 ond wedi’i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) ac i adlewyrchu’r costau yn 2022/23.

**2.2.** Mae’r rhagdybiaethau hyn wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y gyllideb ddisymud ynghyd â newidiadau manylach (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy’n caniatáu ar gyfer codiadau mewn costau y gwyddys amdanynt e.e. ymrwymiadau cytundebol a mân gywiriadau i’r gyllideb. Mae’r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau y gwyddys amdanynt i gyllid grant a mân gywiriadau i’r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu’n gywir y costau y mae’n eu hwynebu yn 2022/23.

### 3. SETLIAD DROS DRO

**3.1.** Mae’r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021, yn dangos cynnydd o £456m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sy’n cyfateb i gynnydd o 9.8% mewn termau arian parod. Fodd bynnag, mae £18.585m yn ymwneud â grantiau a drosglwyddwyd i mewn a, phan addasir effaith y newidiadau hyn, mae’r gwir ffigwr yn dangos cynnydd o £437.4m, sy’n gynnydd o 9.4%. Dangosir y manylion yn Nhabl 1 isod:-

| Tabl 1<br>Setliad Dros Dro 2022/23 | | |
|---|---|---|
| | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| | **£'m** | **£'m** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) 2021/22 | 104.825 | 4,651.494 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer newid yn Sylfaen y Dreth | - 0.064 | 0.000 |
| | | |
| **Grantiau blynyddoedd cynt a drosglwyddwyd i mewn / (allan)** | | |
| Rheoli Risg yr Arfordir | 0.000 | 0.286 |
| Ffioedd Clwyd | 0.000 | 13.300 |
| Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol | 0.111 | 5.000 |
| | | |
| **AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **104.872** | **4,670.080** |
| **AEF Dros Dro 2022/23** | **114.549** | **5,107.507** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22** | **9.724** | **456.013** |
| **% Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22** | **+ 9.27%** | **+ 9.80%** |
| **Cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **9.677** | **437.427** |
| **% cynnydd o gymharu ag AEF 2021/22 wedi ei addasu** | **+ 9.23%** | **+ 9.37%** |

**3.2.** Mae nifer o wahanol setiau data yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, yn cynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae eu heffaith yn wahanol ar ddyraniad pob awdurdod. Mae rhai awdurdodau'n elwa o'r addasiadau hyn, tra eu bod yn cael effaith negyddol ar awdurdodau eraill ac, o'r herwydd, nid yw pob awdurdod yn derbyn yr un lefel o gynnydd. Yn y setliad dros dro ar gyfer 2022/23, mae'r cynnydd yn amrywio o 11.2% (Sir Fynwy) i 8.4% (Blaenau Gwent). Mae cynnydd Ynys Môn 0.2% yn is na chyfartaledd Cymru, a dyma'r 11eg cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod.

## 4. Y PRIF NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2022/23

**4.1.** Manylir isod ar y prif newidiadau rhwng cyllideb derfynol 2021/22 a chyllideb ddrafft 2022/23.

### 4.2. Chwyddiant Cyflogau a Phwysau Staffio Arall

Bydd costau tâl yn newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau staff dros y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn derbyn cynyddiadau cyflog blynyddol a'r dyfarniad cyflog. Fel arfer, mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael ei gytuno cyn gosod y gyllideb ac, o'r herwydd mae'r man cychwyn ar gyfer y gyllideb gyflogau yn hysbys. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw dyfarniad cyflog 2021/22 ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, sy'n weithredol o fis Ebrill 2021, wedi cael ei gytuno ac mae hyn yn creu elfen o ansicrwydd ychwanegol ynghylch cywirdeb y cyllidebau cyflogau. Cynnig terfynol y cyflogwr yw codiad cyflog o 1.75% ac mae cyfrifiadau'r gyllideb yn rhagdybio mai dyma fydd y dyfarniad cyflog terfynol ar gyfer 2021/22. Mae'r gyllideb cyflogau staff nad ydynt yn athrawon ar gyfer 2021/22 (yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr) yn £47.5m ac, felly, bydd pob 1% o gynnydd yn y dyfarniad cyflog yn ychwanegu oddeutu £500k i gostau'r Cyngor.

Oherwydd yr uchod, mae amcangyfrif y dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23 yn fwy anodd na'r arfer. Mae amcangyfrif lefel y dyfarniad cyflog posib ar gyfer 2022/23 yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd sylweddol yn lefel y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol ym mis Hydref 2021. Mae'r ffactorau hyn yn sicr o arwain yr Undebau i bwyso am ddyfarniad cyflog llawer uwch nag a gafwyd yn y gorffennol.

Mae cyllideb cyflogau athrawon ar gyfer 2021/22 oddeutu £31m (yn cynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol a phensiwn y cyflogwr). Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dyfarniad cyflog ac mae'n effeithiol o fis Medi bob blwyddyn. Rhydd hyn rhyw sicrwydd i ni ynghylch cyllideb cyflogau athrawon ar gyfer rhan o 2022/23, ond mae cryn ansicrwydd ynghylch y dyfarniad cyflog o fis Medi 2022 ymlaen, am y rhesymau a nodwyd uchod. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r dyfarniad cyflog, ac maent wedi cadarnhau bod cyllid ar gyfer dyfarniad cyflog 2022/23 wedi'i ymgorffori yn y setliad, er nad ydynt wedi nodi lefel y dyfarniad cyflog sy'n cael ei gyllido.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys gynnydd o 1.25% yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr, sy'n golygu bod y gyfradd safonol ar gyfer cyfraniadau yn codi o 13.8% i 15.05%, cynnydd o 9.06%. Bydd hyn yn arwain at oddeutu £500k o gynnydd yng nghostau'r Cyngor.

O gymryd y cyfan o'r uchod i ystyriaeth, amcangyfrifir y bydd cynnydd cyffredinol o £4.053m yn y gyllideb gyflogau yn 2022/23.

### 4.3. Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl

Mae lefel chwyddiant yn y DU wedi bod yn isel iawn ers nifer o flynyddoedd ac roedd yn syml iawn ei amcangyfrif, ond mae chwyddiant wedi codi'n sylweddol yn 2021, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn codi i 4.2% ym mis Hydref 2021, gyda chynnydd uwch mewn rhai nwyddau, gan gynnwys ynni a deunyddiau adeiladu. Rhagwelir y bydd chwyddiant yn cyrraedd 5% yn gynnar yn 2022, cyn dechrau gostwng yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

Mae costau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â thâl yn cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael, ac mae chwyddiant yn effeithio'n wahanol ar bob un ohonynt:-

- Contractau tymor hir lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant a benderfynwyd ymlaen llaw ac mae'r ffigwr ar gyfer pwynt penodol mewn amser yn cael ei ddefnyddio. Mae'r mathau hyn o gontract yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fydd chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n cael effaith ar gostau'r contractwr, e.e. bydd gan y ffactor chwyddiant ar gyfer y contract casglu gwastraff gysylltiad cryf iawn â chost tanwydd gan fod hwn yn gost sylweddol i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei negodi. Maent yn cynnwys ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid y CPI yw'r prif ffactor o ran cynnydd yn y prisiau hyn gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel y chwyddiant yn gysylltiedig â chyflog, a'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol yn arbennig.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Maent yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Unwaith eto, bydd cynnydd yn y pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio'r CPI fel sail i'r cynnydd.
- Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu pryd a phan fydd eu hangen, naill ai trwy broses dendr unwaith ac am byth, derbyn dyfynbrisiau neu godi archeb. Mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu yn ddibynnol ar y pris pan gyflwynir yr archeb neu pan dderbynnir y tendr.

Wrth lunio'r gyllideb ddisymud, caniatawyd ar gyfer y lefel chwyddiant a benderfynwyd gan gontract penodol. Lle nad oes cytundeb ffurfiol yn nodi sut y penderfynir ar chwyddiant, caniatawyd ar gyfer lefel gyffredinol o 2%, gyda chynnydd o 3% yn y cyllidebau ynni a chynnydd o 5% yn y contractau Gwasanaethau Cymdeithasol, lle mae costau'n cael eu gyrru gan gynnydd mewn costau staffio.

Dros y 4 blynedd diwethaf, defnyddiwyd ffigwr cynnydd cyffredinol o 3% ar gyfer cyllidebau ffioedd a thaliadau anstatudol a defnyddiwyd y ffigwr hwn eto yn 2022/23, er bod gan wasanaethau'r disgresiwn i gynyddu ffioedd a thaliadau unigol gan swm sy'n fwy neu'n llai na'r ffigwr hwn, ar yr amod bod cynnydd o 3% yn eu hincwm cyffredinol.

Y cynnydd net yn yr addasiadau ar gyfer chwyddiant heblaw am gyflogau ac incwm anstatudol yw £2.479m.

**4.4. Niferoedd Disgyblion**

Bob blwyddyn, mae effaith y newid yn nifer y disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb ac mae niferoedd disgyblion ym mis Medi 2021 yn cael eu defnyddio fel sail i gyllideb 2022/23. Ar gyfer 2022/23, mae nifer y disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, a gwelwyd gostyngiad pellach o 126 disgybl, tra bod cynnydd o 89 yn nifer y disgyblion uwchradd. Yn ogystal, roedd cynnydd o 12 disgybl yng Nghanolfan Addysg y Bont. Effaith net y newidiadau hyn yw cynnydd o £295k yng nghyllideb ddatganoledig ysgolion.

**4.5. Ardollau**

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â phŵer statudol i osod ardoll. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sydd yn gosod ardoll gyffredinol ar gyfer chwe awdurdod Gogledd Cymru ac yna mae'n cael ei rhannu ar draws y chwe awdurdod yn seiliedig ar boblogaeth. Yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021, penderfynodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gynnydd o 6.3% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, sy'n golygu cynnydd o £225k yn ardoll y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod yr ardoll a gyllidir gan y Cyngor yn £3.915m.

Mae'n ofynnol yn awr i chwe Awdurdod Gogledd Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) i fod yn gyfrifol am bolisi strategol ym maes trafnidiaeth a chynllunio a datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar gyfrifoldebau'r CBC a bydd y CBC yn penderfynu ar yr ardoll a godir ar bob awdurdod lleol mewn cyfarfod ddiwedd mis Ionawr 2022. I bwrpas y gyllideb gychwynnol, mae amcangyfrif o £20k wedi'i gynnwys fel amcangyfrif o ardoll y CBC, ond gallai'r swm hwnnw newid.

**4.6. Costau Cyllido Cyfalaf**

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), costau llog blynyddol ar fenthyciadau cyfredol a'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau. Mae'r newid yn y polisi Darpariaeth Refeniw Isaf yn 2018 wedi arwain at orddarpariaeth yn y MRP yn y gorffennol. Mae'r orddarpariaeth hon yn cynnig rhywfaint o gyfle i leihau cost yr MRP yn y dyfodol, ar yr un pryd â sicrhau bod y ddarpariaeth a wneir yn ddarbodus. Ychydig o flynyddoedd yn ôl, cymerodd y Cyngor fenthyciadau di-log i dalu am waith arbed ynni yn adeiladau'r Cyngor. Mae'r benthyciadau hyn yn agosáu at gael eu had-dalu'n llawn ac mae hynny'n golygu bod modd gostwng y costau cyllido cyfalaf. Mae llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau wedi bod yn is nag erioed yn ystod 2020 a 2021, ac nid oes disgwyl iddo godi'n sylweddol yn ystod 2022/23, felly, mae'r gyllideb ar gyfer llog a dderbyniwyd wedi cael ei haddasu yn unol â hynny. Effaith net y tri phwynt a nodwyd uchod yw gostyngiad o £183k yn y gyllideb cyllido cyfalaf.

**4.7. Cyllidebau Wrth Gefn a Mân Newidiadau Eraill**

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn wedi'u hymgorffori yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib y gall bod angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn neu fel arian wrth gefn cyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r pwysau ar gyllidebau gynyddu neu fel mae pethau annisgwyl yn digwydd. Mae'r cyllidebau wrth gefn hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a daethpwyd i'r casgliad y gellir tynnu £122k o'r gyllideb o ganlyniad i'r addasiadau hyn i'r cyllidebau wrth gefn a mân newidiadau eraill yn y gyllideb na roddir sylw iddynt yn yr addasiadau y manylir arnynt uchod.

### 4.8. Disgwyliadau Cyllido gan Lywodraeth Cymru

Wrth benderfynu ar lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer pob Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r glir bod yr AEF yn darparu cyllid ar gyfer nifer o bwysau ar gostau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu yn 2022/23 ac ni fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol ar eu cyfer. Cyfrifoldeb pob Cyngor yw darparu cyllid digonol yn y gyllideb flynyddol i gwrdd â'r costau hyn. Mae'r prif feysydd y mae angen caniatáu ar eu cyfer fel a ganlyn:-

- **Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Staff Gofal**
  Mae staff gofal y Cyngor ei hun yn derbyn cyflog uwch na lefel y cyflog byw gwirioneddol ond mae'n debygol bod y darparwyr allanol yn talu cyflogau sy'n is na'r lefel hon. Y gwahaniaeth rhwng y cyflog byw cenedlaethol (statudol) a'r cyflog byw gwirioneddol yw £1 yr awr. Wrth lunio'r gyllideb gychwynnol, caniatawyd 5% fel chwyddiant ar ffioedd gofal darparwyr allanol. Bydd y gofyn ar ddarparwyr allanol i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i staff gofal yn arwain at gynnydd o fwy na 5% yn eu costau, ac amcangyfrifir y bydd angen swm ychwanegol o £200k i gwrdd â'r costau ychwanegol.

- **Atal Digartrefedd**
  Yn ystod y Pandemig, roedd cynnydd sylweddol mewn gwariant ar Atal Digartrefedd ac fe'i cyllidwyd o Gronfa Caledi Covid Llywodraeth Cymru. Daw'r cyllid hwn i ben yn 2022/23, gyda'r cyllid yn cael ei ymgorffori yn y setliad. Amcangyfrifir bod cost cynnal y lefel gwasanaeth ychwanegol hwn yn £530k. Dylid nodi bod grant ar wahân o £15m yn cael ei darparu ledled Cymru ac, er na chytunwyd ar y dull dosbarthu eto amcangyfrifi y gallai Ynys Môn dderbyn £180k o'r cyllid grant ychwanegol hwn. Felly, caniatawyd ar gyfer y £350k sy'n weddill fel yr angen am gyllid ychwanegol, er efallai y bydd angen addasu'r swm pan fydd y dyraniad grant yn hysbys.

- **Y Gronfa Galedi Covid**
  Yn 2020/21 a 2021/22, mae costau ychwanegol a cholled incwm oherwydd Covid wedi cael eu cyllido trwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Wrth i ni symud allan o'r pandemig, mae disgwyl i ddelio â Covid ddod yn fusnes fel arfer, a bydd rhai o'r costau ychwanegol hyn (glanhau ychwanegol, staff dros dro, cyfarpar diogelu personol ac ati) yn dod yn gostau busnes arferol i'r Cyngor. O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid penodol yn 2022/23, ond maent wedi cydnabod y costau uwch hyn yn y setliad. Mae'n anodd amcangyfrif y costau ychwanegol gwirioneddol hyn i'r Cyngor yn y dyfodol gan eu bod yn ddibynnol ar nifer yr achosion a pha mor ddifrifol fydd straeniau'r feirws yn y dyfodol. Felly, mae'n ddoeth cadw arian wrth gefn y gellir ychwanegu ato hefyd o gronfeydd a balansau cyffredinol y Cyngor os bydd angen. Bydd swm wrth gefn o £300k ar gyfer 2022/23 i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn, er y dylid nodi bod rhai o'r costau yr oedd y gronfa galedi'n darparu ar eu cyfer wedi cael eu hymgorffori yn y brif gyllideb (ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio uwch, glanhau ychwanegol mewn ysgolion ac atal digartrefedd). Mae'r swm a ddyrannwyd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddwn yn symud o sefyllfa pandemig i sefyllfa lle mae'r feirws yn endemig yn ystod 2022, ond mae yna bob amser risg y gallai'r sefyllfa waethygu unwaith eto ac y bydd y pandemig yn parhau gyda chyfyngiadau pellach.

- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
  Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau penodol newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys sut mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal a chynnal asesiadau perfformiad. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) rhanbarthol, a bydd y costau wedi'u cynnwys yn yr ardoll (gweler uchod). Amcangyfrifir y bydd angen £78k yn ychwanegol i gwrdd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn. Mae'r Cyngor wedi gwneud buddsoddiad cyfalaf mewn technoleg newydd yn ystod 2021/22 i alluogi'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd hybrid.

### 4.9. Cynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi

Yn ei gyfarfod ar 25 Hydref 2021, rhoddodd y Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyaeth i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 50%. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynhyrchu £451k o gyllid ychwanegol. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddefnyddio £65k i gyllido dau aelod ychwanegol o staff yn y tîm Dreth Gyngor (ymgorfforwyd y newid hwn yn y gyllideb cyflogau). Gedy hyn swm o £386k i'w ddyrannu i brosiectau i helpu pobl i brynu eu cartref eu hunain a hyrwyddo'r economi leol.

### 4.10. Buddsoddi i fynd i'r afael â Materion a Risgiau Gwasanaeth

Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi wynebu cyfnod hir o gyni lle bu'n rhaid gostwng capasiti a darparu llai o wasanaethau. Ers 2013/14, gwireddwyd dros £25m o arbedion er mwyn cydbwyso'r gyllideb bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at gynyddu risgiau mewn nifer o wasanaethau. Mae setliad Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle yn awr i'r Cyngor fynd i'r afael â rhai o'r risgiau hyn ac ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen hanfodol.

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaeth benderfynu pa lefel o gyllid fyddai ei angen i'w cynorthwyo i fynd i'r afael â materion a risgiau gwasanaeth. Ar sail y bidiau cychwynnol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi adolygu lefel y symiau y gofynnwyd amdanynt ac mae'r symiau a ganlyn wedi'u cynnwys yn y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Manylir arnynt yn Nhabl 2 isod, ynghyd â chrynodeb o'r risgiau a'r materion y bydd y buddsoddiad yn mynd i'r afael â hwy.

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r Buddsoddiad Arfaethedig mewn Gwasanaethau**

| Gwasanaeth | Swm a Ddyrannwyd £'000 | Risgiau a Materion fydd yn cael sylw |
|---|---|---|
| Addysg | 1,120 | |
| Gwasanaethau Plant | 489 | Ar hyn o bryd, mae pwysau mewn perthynas â chostau lleoliadau preswyl arbenigol na ellir ymdrin â nhw'n lleol. Yn ogystal, mae nifer y plant sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Arbenigol i Blant wedi cynyddu dros 67% yn ystod y 3 blynedd diwethaf a bydd newidiadau mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth yn arwain at bwysau ychwanegol ar y tîm hwn. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth yn caniatáu i ni fynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol hyn. |
| Gwasanaethau Oedolion | 258 | Bydd buddsoddiad ychwanegol yn darparu cyllid i ddelio â'r galw cynyddol ond bydd hefyd yn cynyddu'r capasiti o fewn y gwasanaeth, i drawsnewid a modelu prosesau busnes a darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn lleihau risgiau comisiynu ac yn darparu dulliau gwell o fesur perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. |
| Rheoleiddio | 196 | Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn mynd i'r afael â thri phrif faes yn y Gwasanaeth: Morwrol, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd.<br><br>Morwrol - Bydd y buddsoddiad yn gwella'r capasiti i sicrhau y gellir rheoli holl ddefnyddwyr ardaloedd morwrol yn fwy effeithiol ac yn caniatáu nodi a lliniaru risgiau morwrol yn well a rheoli badau dŵr.<br><br>Gwarchod y Cyhoedd – Mae sicrhau amgylchedd fyw a gweithio diogel ac iach i breswylwyr a busnesau yn |

| Gwasanaeth | Swm a Ddyrannwyd £'000 | Risgiau a Materion fydd yn cael sylw |
|---|---|---|
| | | ddyletswydd gorfforaethol amlwg. Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn caniatau i'r Gwasanaeth ymateb yn effeithiol i bryderon a digwyddiadau amgylcheddol.<br><br>Datblygu Economaidd – Mae'r Ynys yn wynebu nifer o heriau economaidd-gymdeithasol. Bydd yn hollbwysig i'r Gwasanaeth feddu ar y gallu i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gydlynol ac effeithiol, gyda'r nod o sicrhau mewnfuddsoddiad i'r Ynys, dylanwadu ar weithgareddau economaidd rhanbarthol a chefnogi asedau economaidd holl bwysig yr Ynys. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 446 | Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn darparu cyllid i ddelio â risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar draws y gwasanaeth (datgarboneiddio, clefyd coed Ynn, newidiadau yn y galw am wasanaethau a disgwyliadau'r cyhoedd ar ôl Covid o ran hylendid a glendid adeiladau cyhoeddus). Bydd hefyd yn caniatáu i brosiectau gael eu datblygu i wneud cais am gyllid grant allanol yn enwedig mewn ymateb i amcan y Cyngor i ddod yn sefydliad carbon sero erbyn 2030. |
| Adnoddau | 58 | Bydd y cyllid ychwanegol yn cynyddu capasiti yn y Gwasanaeth a fydd yn caniatau moderneiddio systemau busnes a phrosesau busnes. Bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac yn darparu gwell gwasanaeth cwsmer i gwsmeriaid mewnol ac allanol. |
| Trawsnewid | 297 | Bydd y cyllid ychwanegol yn cynyddu'r capasiti o fewn y Gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau i barhau i foderneiddio a gwella gwasanaethau a phrosesau, yn enwedig gwella systemau TG. |
| **CYFANSWM** | **2,864** | |

Nid yw'r amser byr rhwng cyhoeddi setliad dros dro Llywodraeth Cymru a'r angen i gyhoeddi'r cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb wedi caniatáu i'r Aelodau archwilio'r holl fuddsoddiadau arfaethedig yn llawn a'u herio. Cyn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ym mis Mawrth, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i archwilio'r cynigion manwl a gyflwynwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Gwasanaeth.

## 5. Y SEFYLLFA GYLLIDO

**5.1.** Ar ôl cymryd y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru i ystyriaeth (fel y nodir ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau i'r gyllideb (fel y nodir ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor wedi'i nodi yn Nhabl 3 isod:-

| Tabl 3<br>Y Bwlch Cyllido 2022/23 | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2021/22** | **£'m** | **£'m**<br>**147.420** |
| **Prif Addasiadau i'r Gyllideb (fel y nodir ym Mharagraff 4)** | | |
| Chwyddiant Cyflog a Chostau Staffio Eraill | 4.053 | |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl | 2.479 | |
| Niferoedd Disgyblion | 0.295 | |
| Ardollau | 0.245 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (0.183) | |
| Cyllidebau Wrth Gefn a Mân Addasiadau Eraill | (0.122) | |
| | | 6.767 |
| Disgwyliadau Cyllido gan Lywodraeth Cymru | | 0.928 |
| Defnyddio Cyllid Ychwanegol o'r Premiwm ar Ail Gartrefi | | 0.386 |
| Buddsoddi i fynd i'r afael â Materion a Risgiau Gwasanaeth | | 2.864 |
| Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Cychwynnol 2022/23 | | **158.365** |
| **Cyllidir gan** | | |
| Grant Cymorth Refeniw | (89.056) | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | (25.493) | |
| | | (114.549) |
| Cyllideb Dreth Gyngor 2021/22 (wedi'i haddasu ar gyfer y newid yn sail y dreth a chynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi) | | (42.957) |
| **Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor** | | **(157.506)** |
| **Cyllid (Gwarged) / Diffyg (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor)** | | **0.859** |

**5.2.** Er mwyn cyllido'r diffyg o £0.859m, byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu bod y Dreth ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,367.46, sef cynnydd blynyddol o £26.82 a chynnydd wythnosol o £0.52.

## 6. RISGIAU CYLLIDEBOL

**6.1.** Wrth osod y gyllideb, mae angen asesu nifer o risgiau ariannol a allai greu cost ariannol i'r Cyngor. Mae'r cynnig ar gyfer y gyllideb yn caniatáu ar gyfer rhai o'r risgiau hyn, ond nid yw eraill wedi eu cynnwys yn y gyllideb a byddai balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cwrdd â nhw pe byddai'r risg yn cael ei wireddu fel cost ariannol yn 2022/23.

**6.2.** Ar hyn o bryd, lefel balansau cyffredinol heb eu clustnodi y Cyngor yw £9.3m. Mae'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn dyrannu £1.68m o'r balansau hyn fel cyllid cyfalaf, sydd yn gostwng y balans heb ei glustnodi i £7.6m.

**6.3** Mae sefyllfa gyfredol cyllideb refeniw 2021/22 yn amcangyfrif tanwariant ac, er ei bod yn anodd amcangyfrif lefel derfynol y tanwariant yn gywir, disgwylir y bydd yn £1m o leiaf. Ychwanegir y swm hwn yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor ac, os yw'r tanwariant disgwyliedig yn £1m, yna byddai hyn yn codi balansau cyffredinol y Cyngor i £8.6m.

**6.4.** Fel rheol y fawd, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod ffigwr o 5% o'r gyllideb refeniw net fel isafswm ar gyfer y balans cyffredinol. Ar sail y gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2022/23 o £158.365m, yr isafswm fyddai ei angen yw £7.9m.

**6.5.** Mae nifer o risgiau ariannol na chaniatawyd ar eu cyfer yn y gyllideb, neu mae'n bosib nad yw'r gyllideb ond yn caniatáu ar eu cyfer yn rhannol, ac maent yn cynnwys:-

- **Costau Covid a cholled incwm posib -** Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £300k fel cyllideb wrth gefn, ond efallai na fydd hyn yn ddigon os bydd y sefyllfa Covid yn gwaethygu eto yn 2022/23 a chyfyngiadau pellach yn cael eu hailgyflwyno.

- **Dyfarniad Cyflog –** fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 uchod, cynyddwyd y gyllideb i adlewyrchu amcangyfrif o'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2021/22 a 2022/23, ond mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y dyfarniadau cyflog. Os yw'r dyfarniadau terfynol y cytunir arnynt yn uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb, bydd y gost yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor yn 2022/23 cyn eu cywiro yng nghyllideb 2023/24.

- **Chwyddiant Cyffredinol -** Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae lefel chwyddiant prisiau cyffredinol wedi codi'n sylweddol o gymharu â'i lefel dros nifer o flynyddoedd. Mae'r ffaith fod gan y Cyngor nifer o gontractau mawr hirdymor gyda chyflenwyr allanol (cynnal a chadw ffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol, cyflenwadau ynni ac ati) yn rhoi lefel o amddiffyniad i'r Cyngor yn erbyn cynnydd mewn prisiau, gan fod y pris wedi'i gynnwys yn nhelerau'r contract presennol. Fodd bynnag, mae risg o hyd y bydd cynnydd mewn prisiau yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y gyllideb refeniw yn 2022/23.

- **Galw am Wasanaethau -** Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefel y galw presennol mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau'n creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor nad yw'r cyllidebau presennol yn darparu ar eu cyfer.

- **Incwm Grant** – Yn ogystal â'r cyllid a dderbynnir trwy'r Cyllid Allanol Cyfun, mae'r Cyngor yn derbyn lefel sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Pan fydd lefel grantiau penodol yn disgyn, nid yw bob amser yn bosib ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir trwy'r grant yn cael ei integreiddio i'r gwasanaeth a gyllidir o gyllideb graidd y Cyngor. Felly, mae oedi rhwng gostwng y cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r gost gysylltiedig trwy aildrefnu'r gwasanaeth.

- **Awdurdod Iechyd Porthladd** - Bydd rhaid i'r Cyngor ysgwyddo cyfrifoldebau newydd fel Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer Caergybi. Bydd y dyletswyddau ychwanegol yn golygu y bydd rhaid i'r Cyngor recriwtio staff a chreu capasiti ychwanegol heb unrhyw sicrwydd y bydd yr incwm a gynhyrchir yn cwrdd â chost y gwasanaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru a CThEM ynghylch a ydynt yn gallu gwarantu'r costau. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, efallai y bydd y Cyngor yn wynebu costau ychwanegol yn 2022/23 nad ydynt yn cael eu cyllido yn y gyllideb arfaethedig.

**6.6.** Oherwydd y risgiau uchod, sydd yn uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arferol, mae'n ddoeth i'r Cyngor gynnal balans cyffredinol sy'n uwch na 5% o'r gyllideb refeniw net.

## 7. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL DIWYGIEDIG

**7.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn amcangyfrif y bydd angen cynnydd o £3.3m yng nghyllideb refeniw net y Cyngor yn 2023/24 a £3.6m yn 2024/25, dim ond er mwyn cwrdd â chostau chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau, costau uwch ar gontractau a gafodd eu tendro a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau.

**7.2.** Mae setliad dros dro 2022/23 yn nodi cynnydd dangosol o 3.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun yng Nghymru yn 2023/24 a 2.4% yn 2024/25. Pe byddai Ynys Môn yn derbyn y cynnydd hwn, yna byddai'n cynhyrchu £4.1m yn ychwanegol yn 2023/24 a £2.8m yn 2024/25. Er dylid nodi bod y cyllid yn ddibynnol ar gyflawni'r incwm a ragwelir o Drethi Annomestig ar draws Cymru a pha effaith fydd newidiadau yn y setiau data yn eu cael ar ddyraniad Ynys Môn trwy'r fformiwla dyrannu.

**7.3.** Ar sail yr uchod, byddai modd parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn 2023/24, gyda lefel y buddsoddiad yn dibynnu ar y cynnydd yn y Dreth Gyngor, ond mae'r sefyllfa'n dechrau gwaethygu eto yn 2024/25 a byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor dim ond i gynnal lefelau gwasanaeth presennol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigyrau'n seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a gallant newid yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

## 8. MATERION I'W PENDERFYNU

**8.1.** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 10 Mawrth 2022, ond ar hyn o bryd, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

- Cyllideb arfaethedig cychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m;
- Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46;
- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig cychwynnol a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23.

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2022/23 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2021/22** | **Cyllideb Arfaethedig 2022/23** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 42.628 | 45.245 | + 2.617 | + 6.14 |
| Addysg Ganolog | 10.974 | 10.889 | - 0.085 | - 0.78 |
| Diwylliant | 1.208 | 1.270 | + 0.062 | + 5.13 |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **54.810** | **57.404** | **+ 2.594** | **+ 4.73** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 6.384 | 6.907 | + 0.523 | + 8.19 |
| Eiddo | 0.922 | 1.404 | + 0.482 | + 52.25 |
| Gwastraff | 8.825 | 9.257 | + 0.432 | + 4.89 |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **16.131** | **17.568** | **+ 1.437** | **+ 8.91** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd a Morwrol | 1.955 | 2.221 | + 0.266 | + 13.63 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2.247 | 2.386 | + 0.139 | +6.18 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **4.202** | **4.607** | **+ 0.405** | **+9.65** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **27.733** | **29.732** | **+ 1.999** | **+ 7.21** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **11.188** | **12.115** | **+ 0.927** | **+ 8.29** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.368 | 1.480 | + 0.112 | + 8.16 |
| TGCh | 3.200 | 3.708 | + 0.508 | + 15.88 |
| Trawsnewid | 0.869 | 0.999 | + 0.130 | +15.02 |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **5.437** | **6.187** | **+ 0.750** | **+ 13.80** |
| | | | | |
| **Tai** | **1.247** | **1.914** | **+ 0.667** | **+ 53.48** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **3.236** | **3.484** | **+ 0.248** | **+ 7.67** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **1.708** | **1.857** | **+ 0.149** | **+ 8.71** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **125.692** | **134.868** | **+ 9.176** | **+ 7.30** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.636 | 0.736 | + 0.100 | + 15.67 |
| Ardollau | 3.695 | 3.921 | + 0.226 | + 6.12 |
| Corfforaethol a Democrataidd | 3.010 | 3.305 | + 0.295 | + 9.80 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.393 | 7.210 | - 0.183 | - 2.48 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 0.109 | 0.109 | 0.000 | 0.00 |
| Tâl a godir ar y CRT | (0.700) | (0.800) | - 0.100 | - 14.28 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6.181 | 6.304 | + 0.123 | + 2.00 |
| Cyllidebau Wrth Gefn | 1.333 | 2.640 | + 1.307 | + 98.05 |
| Rhyddhad Dewisol at y Dreth | 0.071 | 0.072 | + 0.001 | + 1.41 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Cyfalaf** | **21.728** | **23.497** | **+ 1.769** | **+ 9.44** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB** | **147.420** | **158.365** | **10.945** | **+ 7.42** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr, 2022** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2022/23 (Cyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2022/23** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gynigion cychwynnol y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni Cynllun Trosiannol y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol cyfalaf 2022/23:

i. O ystyried yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, a yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig?
ii. Sut mae cynigion cyfalaf 2022/23 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni blaenoriaethau tymor canol y Cyngor yn ogystal â chydbwyso pwysau tymor byr?
iii. I ba raddau y mae'r Pwyllgor yn ystyried defnyddio £1.68m o'r balansau cyffredinol fel rhan o ariannu'r rhaglen gyfalaf yn ddefnydd dilys o gronfeydd wrth gefn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

**1.2 Strategaeth Gyfalaf 2021/22 – 2023/24**

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA [1] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gyfalaf er mwyn:

- Nodi'r cyd-destun tymor hir y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo
- Fel ffordd o sicrhau bod Cynghorau'n gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd ystyriaeth briodol o stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth osod eu rhaglenni cyfalaf.

Mabwysiadwyd strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf yr Awdurdod am 2021/22 - 2023/24 gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth, 2021.[2] Mae'n nodi'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn unol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid lleol. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion allweddol Cynllun y Cyngor ac sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:

i. Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
ii. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

[1] Côd Darbodus Diwygiedig (CIPFA) dyddiedig Medi 2017
[2] Cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth, 2021.

iii. Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, gan amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2021/22 - 2023/24. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion tymor hir sy'n sail i gynllunio cyfalaf i'r dyfodol.

**1.3 Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn trafod nifer o egwyddorion tymor hir a ddylai fod yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor:

- Dylai'r rhaglen gyfalaf flynyddol ganolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at flaenoriaethau allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 2023/24.
- Dylid dyrannu cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad ynn yr asedau cyfredol
- Bydd y Cyngor yn sicrhau'r cyllid cyfalaf allanol mwyaf posib os oes modd gwneud hynny ac os yw'n fforddiadwy
- Blaenoriaethir cyllid cyfalaf hefyd i'w wario ar asedau sydd raid wrthynt i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Ymrwymiad parhaus i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac i ddefnyddio'r cyllid allanol sydd ar gael yn llawn

**1.4 Ffynonellau Cyllido'r Gyllideb Gyfalaf**

Ariennir rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor trwy nifer o ffynonellau cyllid:

- Derbyniadau Cyfalaf
- Cyfraniad gan Refeniw / Arian wrth Gefn
- Benthyca â Chefnogaeth
- Benthyca Di-gefnogaeth
- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Grantiau Allanol
- Lwfans Atgyweirio Mawr

**1.5** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hirach y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2021/2022 - 2022/23) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor.

**2 GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2022/23**

**2.1** Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 **(ATODIAD 1)** a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 24 Ionawr, 2022. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Egwyddorion y strategaeth gyfalaf

- Y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf gyffredinol, buddsoddiad yn Ysgolion yr 21ain Ganrif a rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai
- Sut y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu yn 2022/23
- Effaith ar falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 gan Lywodraeth Cymru ar 2 March, 2022.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2022/23**

3.1 Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau sgriwtini effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

**4.1** Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (20 Ionawr, 2022). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5 Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

**5.1** Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn trethdalwyr Ynys Môn ar y gyllideb gyfalaf arfaethedig. Gan fod y Setliad Cychwynnol wedi dod i law mor hwyr yn y flwyddyn, mae'r amser sydd ar gaeal i ymgynghori ar gynigion y Pwyllgor Gwaith yn fyr iawn.

**5.2** Bydd canlyniad y broses ymgynghori yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini[3] cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu ar ei gynigion terfynol ar 3 Mawrth, 2022.

**5.3** Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg am gyfnod o 2 wythnos rhwng 25 Ionawr → 8 Chwefror, 2022.

**6 MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

**6.1** Mae proses gosod cyllideb 2022/23 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft ac unrhyw risgiau. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[4] ar gynigion cyfalaf cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2022/23 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

[3] Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 28 Chwefror, 2022

[4] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth, 2022

| **6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu’r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu’r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu’r gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb cychwynnol ar gyfer y gyllideb gyfalaf. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 IONAWR 2022** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2022/23 – CYNNIG CYCHWYNNOL** |
| **Deiliad(Deiliaid) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23, a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022.

### 2. ARGYMHELLION

**2.1** Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2022/23 i'r Cyngor llawn:-

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Wedi'u cyllido â chronfeydd wrth gefn a benthyca digefnogaeth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif | | 5,261 |
| Arian Wrth Gefn CRT a'r Gwarged yn ystod y Flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | | 6,000 |
| Derbyniadau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Arian Wrth Gefn Glustnodedig | | 1,195 |
| Benthyca Digefnogaeth o'r Gronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae nifer o gynlluniau ychwanegol i'w hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ffactor sy'n sbarduno'r cyllid yw fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Dirprwyir y mater i'r Pwyllgor Gwaith i gynnig y gyllideb gyfalaf. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Amh |
| **DD– Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod â phwy. | Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CRT yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Bydd y gyllideb gyfalaf yn destun ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb cyn bod y Cyngor yn ei chymeradwyo'n derfynol ym Mawrth 2022. |
| **5** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion A NODIR wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb ganfod dim. |
| **7** | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Heb ganfod dim. |

| E - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | Sylwadau'r UDA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(gorfodol) | Amh. – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA ac mae unrhyw sylwadau wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |
| 5 | **Eiddo** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Bydd unrhyw gynigion sy'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Caffael** | I'w gadarnhau. |
| 8 | **Sgriwtini** | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau bob rheolwr. |
| 9 | **Cyrff allanol / eraill** | |

## F - Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2022/23
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig 2022/23

## FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021
Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Cyngor llawn 9 Mawrth 2021

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2022/23**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2022/23, a nodir isod, yn ystyried yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2021 a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a chaiff ei diweddaru ar gyfer 2022/23 i adlewyrchu'r lefelau cyllid newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23, a gaiff eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf bresennol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth benderfynu ar ei raglen gyfalaf :-

- Bob blwyddyn bydd cyllid cyfalaf yn cael ei neilltuo i sicrhau y buddsoddir mewn asedau presennol i'w diogelu i'r dyfodol;
- Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn fforddiadwy;
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol;
- Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.3.** Aeth y strategaeth wedyn ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ar sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu darparu a chafodd y pwyntiau allweddol canlynol eu cynnwys:-

- Bod rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol;
- Bod amnewid asedau presennol neu asedau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes yn gostwng costau refeniw a bod swm yn cael ei neilltuo yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i wella, neu amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor;
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl a bydd cyllid yn cael ei neilltuo bob blwyddyn yn y rhaglen gyfalaf i gydymffurfio â'r gofyniad hwn;
- Bydd swm yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i gyllido gwelliannau ffyrdd. Bydd y swm yn dibynnu ar y cyllid sydd ei angen i sicrhau unrhyw werthoedd contract gofynnol, lefel y cyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod;
- Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid allanol;
- Ni fydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i dalu am y costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn nodi sut y dylid sgorio unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg gorfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2022/23

**3.1.** Mae'r cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi bod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad Llywodraeth Leol dros dro. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys tan y cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 2 Mawrth 2022. Mae lefel y cyllid o dan y ddau bennawd wedi parhau yn gymharol gyson dros nifer o flynyddoedd a ni ragwelir y bydd newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf a Ragwelir a fydd ar gael ar gyfer 2022/23**

| Ffynhonnell y Cyllid | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau/Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2021/22 | 1,322 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,486 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,157 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 250 | |
| Balansau Cyffredinol | 1,681 | |
| Arian Wrth Gefn Gwasanaethau | 110 | |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 835 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 138 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **8,579** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 1,168 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,261 | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 2,169 | |
| **Cyllid ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | **8,598** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian CRT wrth gefn | 3,080 | |
| CRT - Gwarged yn y flwyddyn | 7,019 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru | 2,685 | |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,000 | |
| **Cyllid ar gyfer CRT** | | **18,784** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2022/23** | | **35,961** |

**3.2.** £3.643m ydi'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Nid oes llawer o gynnydd wedi bod yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd gan fod cyllid cyfalaf ychwanegol wedi bod ar gael ar gyfer prosiectau penodol e.e. Ysgolion yr 21ain Ganrif. Os bydd y lefel yma o gyllid yn parhau yn 2023/24 a thu hwnt, bydd rhaglen gyfalaf y Cyngor wedi'i chyfyngu i adnewyddu ac amnewid asedau presennol neu bydd rhaid lleihau'r dyraniadau uchod er mwyn rhyddhau cyllid i gwrdd ag ymrwymiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer 2022/23, mae'r grant cyfalaf cyffredinol wedi gostwng £677k o'i gymharu â'r cyllid a dderbyniwyd yn 2021/22.

**3.3.** Mae'r potensial ar gyfer unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o unrhyw asedau sy'n weddill nad ydynt wedi'u gwerthu eisoes wedi'u clustnodi i gyllido prosiectau cyfalaf presennol neu brosiectau cyfalaf yn y dyfodol (Ysgolion yr 21[ain] Ganrif, gwelliannau hamdden a mân-ddaliadau).

**3.4.** Mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyllid wedi bod ar gael o gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn benodol i gyllido prosiectau cyfalaf. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y gronfa hon fel ffynhonnell gyllido ond mae'r balans wedi gostwng yn sylweddol a bydd y balans sy'n weddill yn cael ei gadw i gyllido unrhyw waith cyfalaf brys a allai godi yn ystod y flwyddyn neu i ddarparu cyllid cyfatebol pe bai'r cynnig o gyllid grant sylweddol yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofyn am swm bach o gyllid cyfatebol.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau CRT yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw brosiectau eraill. Mae'r cynllun yn caniatáu defnyddio £3.080m yn 2022/23, gan adael £1.5m fel yr arian wrth gefn parhaus. Mae hyn yn unol â Chynllun Busnes y CRT sydd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor.

## 4. RHAGLEN GYFALAF DDRAFFT (Cynlluniau a Ymrwymwyd)

### 4.1. Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen

Ni fydd y cynlluniau canlynol yn cael eu cwblhau yn 2021/22 a byddant yn cael eu dwyn ymlaen i 2022/23:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen**

| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | 2022/23 £'000 |
|---|---|
| Penrhos - Cyfnod 2 | 493 |
| Porth Twristiaeth | 170 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II y Fenter Treflun Treftadaeth) | 350 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 |
| **Cyfanswm y Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** |

### 4.2. Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol

**4.2.1** Bob blwyddyn, neilltuir symiau yn y rhaglen gyfalaf er mwyn cynnal, uwchraddio neu amnewid asedau presennol. Mae'r symiau a neilltuwyd wedi'u hadolygu gan y Tîm Cyllid mewn ymgynghoriad â'r gwasanaeth perthnasol ac argymhellir y symiau canlynol ar gyfer 2022/23:-

- **Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) -** Mewn blynyddoedd blaenorol neilltuwyd £750k ac ategwyd hyn yn ystod y 3 blynedd diwethaf drwy ddefnyddio grantiau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi na fydd yn bosibl defnyddio grant y Gronfa Gofal Canolraddol i ychwanegu at y gyllideb graidd mwyach ac, o'r herwydd, bydd angen cyllideb graidd o £750k yn 2022/23 i gwrdd â'r galw am waith addasu.

- **Adnewyddu Ysgolion** – Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud mewn ysgolion yn sylweddol ac ni ellir ei gyllido yn y tymor byr i'r tymor ganol. Er y gall rhywfaint o hyn gael ei liniaru gan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae angen gwneud rhywfaint o waith brys ar adeiladau nad yw'r rhaglen hon yn effeithio arnynt o hyd. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wedi nodi'r gwaith brys pennaf y dylid defnyddio'r dyraniad arferol o £1m arno. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, mae angen i'r swm y gellir ei wario ar ysgolion gael ei wneud dros gyfnodau gwyliau er mwyn osgoi risgiau iechyd a diogelwch a tharfu ar ysgolion. Mae hyn yn golygu bod angen dechrau rhai prosiectau tymor hir nawr fel y gellir eu cwblhau cyn i risgiau difrifol godi. Mae ysgolion uwchradd yn arbennig mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen buddsoddiad sylweddol arnynt. Fodd bynnag, mae rhai materion adeiladu yn hollbwysig ac ni allant aros am raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ddelfrydol, dylai'r Awdurdod neilltuo tua £2.5m y flwyddyn.

- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion –** Unwaith eto, nodwyd ôl-groniad o waith y mae angen ei wneud yn swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, cyfleusterau gofal dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac nid oes digon o gyllid i wneud y gwaith hwn mewn un flwyddyn. Neilltuwyd £600k yn y flwyddyn flaenorol a bydd y lefel hon o gyllid yn ddigonol i dalu cost y rhan fwyaf o'r gwaith blaenoriaeth y mae angen ei wneud ond, yn 2022/23, mae £100k yn ychwanegol wedi'i neilltuo, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £700k.

  **Ail-wynebu Priffyrdd** - Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau bod angen cyllideb flynyddol o £2m er mwyn cynnal cyflwr Cyflwr Sefydlog (Ataliol) ein ffyrdd. Byddai cyllideb sy'n is na'r swm gofynnol hwn yn anochel yn arwain at lai o effeithlonrwydd a gwerth gorau am arian a chostau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o arian yn cael ei wario ar waith brys a hefyd y risg y bydd mwy o hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd parhau i fuddsoddi yn rhwydwaith ffyrdd y Cyngor, ond y mae hefyd yn cydnabod bod £2m yn gyfran sylweddol o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor ac y bydd yn anodd dyrannu'r swm yma bob blwyddyn. Cynigir defnyddio £2m o gyllid cyfalaf craidd y Cyngor, yn cynnwys defnyddio £1.110m o Falansau Cyffredinol y Cyngor.

- **Cerbydau -** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel sydd yn ei feddiant. Neilltuir £200k o gronfa wrth gefn clustnodedig i gyllido prosiectau sydd wedi'u dylunio i leihau ôl-troed carbon y Cyngor. Bydd hyn yn ein galluogi i brynu cerbydau trydan. Dyrennir £100k yn ychwanegol i barhau i amnewid cerbydau graenu'r Cyngor.

  **Asedau TG –** Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac i amnewid dyfeisiau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen swm o £171k i gynnal yr isadeiledd craidd, a bod angen £121k ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith.

## 5. BIDIAU ERAILL AM GYLLID YCHWANEGOL

**5.1.** Gofynnwyd i'r gwasanaethau gyflwyno bidiau am gyllid cyfalaf. Aseswyd y bidiau hyn gan y Tîm Cyllid, ac yna fe'u gosodwyd yn nhrefn blaenoriaeth gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ac eithrio'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyfanswm y cyllid craidd cyffredinol a oedd ar gael, gan gynnwys arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol, ar gyfer 2022/23 oedd £7.257m, ac mae angen £5.042m ar gyfer yr uchod, gan adael £2.215m i gyllido unrhyw brosiectau untro newydd.

**5.2.** Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r bidiau am gyllid ac argymhellir y dylid cynnwys y prosiectau canlynol yn rhaglen gyfalaf 2022/23 (gweler Tabl 3 isod):-

**Tabl 3**
**Prosiectau Cyfalaf Untro a Argymhellir eu Cyllido yn 2022/23**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Prosiectau Llesiant Amgylcheddol a Datblygu Economaidd | Arian cyfatebol i'w ddefnyddio pan fydd cyllid grant ar gael. | 100 |
| Diweddaru Toiledau Cyhoeddus | Rhaglen waith i ddiweddaru nifer o doiledau cyhoeddus ar yr Ynys. Cyflwynir adroddiad ar y cynllun manwl i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. £100k o'r gost i'w gyllido gydag arian wrth gefn o gronfeydd y gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. | 480 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | Darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach a hefyd darparu cyllid cyfatebol (15%) ar gyfer cynlluniau mawr wedi'u blaenoriaethu er mwyn denu cyllid grant Llywodraeth Cymru (LlC). Felly, byddai grant LlC yn dod i gyfanswm o £1.592m. | 281 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | Bydd y canopïau'n darparu mwy o le i blant eistedd i fwyta eu cinio. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 371 |
| Seilwaith Morwrol | Byddai'r cyllid yn caniatáu i waith gael ei wneud ar y pontydd cychod yn harbwr Amlwch a Phier San Siôr ym Mhorthaethwy. Cyllidir y prosiect o falensau cyffredinol. | 200 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23** | | **1,432** |

**5.3** Daw'r £0.783m sy'n weddill o gyllid o gronfeydd wrth gefn clustnodedig, cronfeydd wrth gefn gwasanaeth a benthyca digefnogaeth. Dangosir y prosiectau a argymhellir yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Prosiectau i'w Cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau a Benthyca Digefnogaeth**

| Teitl y Prosiect | Disgrifiad | Swm a Argymhellir £'000 |
|---|---|---|
| Seilwaith Arfordirol | Bydd y cyllid yn gwella nifer o safleoedd yn cynnwys gwella llwybrau troed, sicrhau gwell mynediad, gwella llwybrau beicio a darparu pwyntiau gwefru i gerbydau trydan. Cyllidir y gost drwy'r gronfa i gyllido'r prosiectau sy'n lleihau ôl-troed carbon y Cyngor. | 200 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | Er mai unigolyn preifat sy'n rheoli'r felin erbyn hyn, ni ellir ymrwymo i brydles tymor hir hyd nes y bydd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau er mwyn i'r felin fod yn weithredol. Mae gan y Cyngor gronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer y gwaith, ond bydd angen cyllid pellach o gronfa wrth gefn y Gwasanaeth Addysg a thrwy fenthyca digefnogaeth. Bydd yr incwm ychwanegol a gynhyrchir drwy'r brydles yn cyllido costau cyllido cyfalaf blynyddol y benthyca digefnogaeth. | 103 |
| Rhaglen Barhaus Uwchraddio Offer Ailgylchu | Mae angen offer newydd yng nghanolfan ailgylchu'r Cyngor a chyllidir y gost drwy gronfa ailgylchu benodol. | 380 |
| Offer Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden David Hughes | Rhoddodd y Cyngor brosiect ar waith i ddiweddaru'r offer ffitrwydd yn ei 4 Canolfan Hamdden a dyma'r uwchraddiad terfynol. Fel yn achos yr uwchraddiadau blaenorol, cyllidir y gost drwy fenthyca digefnogaeth, a chyllidir ac y costau cyllido cyfalaf drwy'r incwm ychwanegol a gynhyrchir. Mae profiad y 3 canolfan hamdden arall yn dangos bod hwn yn opsiwn cyllido dichonadwy. | 100 |
| **CYFANSWM BIDIAU NEWYDD AM GYLLID CYFALAF YN 2022/23 I'W GYLLIDO O GRONFEYDD WRTH GEFN A BENTHYCA DIGEFNOGAETH** | | **783** |

## 6. YSGOLION YR 21ain GANRIF

**6.1.** O ganlyniad i'r cyllid sylweddol y bydd y cynlluniau'n ei ddenu gan Lywodraeth Cymru a'r angen i foderneiddio'r ystad ysgolion bresennol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r cynlluniau hyn drwy'r defnydd o fenthyca digefnogaeth a'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgolion. Mae Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn golygu y gellir cwblhau prosiectau Band A (ysgol newydd Ysgol Corn Hir) a chychwyn prosiectau Band B (estyniad i Ysgol y Graig).

**6.2.** Amcangyfrifir mai cost y rhaglen yn 2022/23 yw £8.598m (yn net o unrhyw dderbyniadau cyfalaf), a fydd yn cael ei gyllido drwy grant o £2.169m gan Lywodraeth Cymru, £1.1.68m o fenthyca â chefnogaeth a £5.261m o fenthyca digefnogaeth.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau SATC, gyda £9.555m yn cael ei fuddsoddi. Bydd £9.229m pellach yn cael ei wario ar ddatblygu eiddo newydd ac mewn prynu eiddo hawl i brynu yn ôl.

**7.2.** Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido drwy: Arian Wrth Gefn y CRT (£3.080m), gwarged y refeniw a grëwyd yn 2022/23 (£7.019m), grantiau Llywodraeth Cymru (£2.685m) a benthyca digefnogaeth newydd (£6.000m).

**7.3.** Nodir manylion y rhaglen buddsoddiadau tymor hir, a'r modd y caiff ei gyllido dros y 30 mlynedd nesaf, yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2022/23

**8.1.** Ceir crynodeb o'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2022/23 yn Nhabl 6 isod a cheir dadansoddiad manylach yn Atodiad 2.

**Tabl 6**

**Crynodeb o'r Rhaglen Cyfalaf a Argymhellir 2022/23**

| | Cyf | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | Para 4.1 a Thabl 2 | 1,322 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | Para 4.2. | 5,042 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd | Para 5.2 a Thabl 3 | 1,432 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (I'w cyllido drwy Gronfeydd Wrth Gefn a Benthyca Digymorth) | Para 5.3 a Thabl 4 | 783 |
| Ysgolion y 21ain Ganrif | Para 6 | 8,598 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 18,784 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2022/23** | | **35,961** |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 1,486 |
| Benthyca â Chymorth Cyffredinol | | 2,157 |
| Balansau Cyffredinol | | 1,681 |
| Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 1,168 |
| Benthyca Digymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | | 5,261 |
| Arian HRA Wrth Gefn a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn | | 10,099 |
| Benthyca Digymorth HRA | | 6,000 |
| Derbynebau Cyfalaf | | 600 |
| Grantiau Allanol | | 4,854 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | | 1,195 |
| Benthyca Digymorth Cronfa Gyffredinol | | 138 |
| Cyllid 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen | | 1,322 |
| **2022/23 Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | | **35,961** |

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG 2022/23

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | | | | | | | | | |
| Penrhos Cyfnod 2 | 493 | 493 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Llangefni – Menter ar y Cyd | 119 | 119 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 170 | 170 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 190 | 190 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II FTT) | 350 | 350 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2021/22 a Ddygwyd Ymlaen** | **1,322** | **1,322** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | | | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 750 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiladau Heblaw Ysgolion | 700 | 0 | 450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,000 | 0 | 14 | 876 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,110 |
| Cerbydau | 300 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Asedau T.G. | 292 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 292 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adnewyddu/Amnewid Asedau Presennol** | **5,042** | **0** | **1,314** | **1,876** | **0** | **0** | **292** | **450** | **1,110** |
| | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | | | | | | | | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd | 281 | 0 | 0 | 281 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd – Arian Cyfatebol | 100 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 480 | 0 | 72 | 0 | 0 | 0 | 308 | 100 | 0 |
| Canopïau allanol mewn 3 Ysgol Uwchradd | 371 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 371 |
| Seilwaith Morwrol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd** | **1,432** | **0** | **172** | **281** | **0** | **0** | **308** | **100** | **571** |

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Arian Wrth Gefn Glustnodedig £'000 | Balansau Cyffredinol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill (Ariennir gan Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig, Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau & Benthyca Digefnogaeth)** | | | | | | | | | |
| Seilwaith Arfordirol | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 0 |
| Atgyweirio Melin Llynnon | 103 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 0 | 65 | 0 |
| Uwchraddio Offer Ailgylchu Gwastraff | 380 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 380 | 0 |
| Offer Ffitrwydd – Canolfan David Hughes | 100 | 0 | 0 | 0 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Untro Eraill** | **783** | **0** | **0** | **0** | **138** | **0** | **0** | **645** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | | | | | | |
| Band A | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 3,768 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Band B | 4,830 | 2,169 | 0 | 1,168 | 1,493 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **8,598** | **2,169** | **0** | **1,168** | **5,261** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM GRONFA CYFFREDINOL** | **17,177** | **3,491** | **1,486** | **3,325** | **5,399** | **0** | **600** | **1,195** | **1,681** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC | 9,555 | 2,685 | 0 | 0 | 0 | 6,870 | 0 | 0 | 0 |
| Datblygiadau Newydd ac Ail-Brynu Eiddo Hawl i Brynu | 9,229 | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 3,229 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **18,784** | **2,685** | **0** | **0** | **6,000** | **10,099** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2022/23** | **35,961** | **6,176** | **1,486** | **3,325** | **11,399** | **10,099** | **600** | **1,195** | **1,681** |

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr,2022** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Tai 2022-27** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I sgrwtineiddio y Strategaeth Tai ac argymell ei gymeradwyaeth** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Aled M Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llyr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Strategaeth<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1 argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Tai 2022-27** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

- Pa gamau cymerwyd i sicrhau sail tystiolaeth gadarn i'r Strategaeth Tai?
- Beth yw'r prif risgiau a heriau yn wynebu'r Cyngor yn y maes Tai?
- I ba raddau mae'r Pandemig yn effeithio ar gynlluniau strategol tymor canol yn y maes Tai?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

**a) Rôl y Strategaeth**

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i asesu'r angen am dai ac i arwain ar waith partneriaeth i sicrhau tai o safon sy'n cwrdd ag anghenion ei ddinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.

Y Strategaeth Tai yw gweledigaeth y Cyngor ar gyfer sut y gellid gwella tai ar gyfer pobl Ynys Môn dros gyfnod o bum mlynedd ac mae'n cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hynny. Bydd y Strategaeth yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r anghenion tai ar yr ynys, y materion y mae angen rhoi sylw iddynt a'r prif ganlyniadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu cyflawni.

**b) Sefyllfa Gyfredol**

Mae'r Strategaeth Tai Interim 2021 yn cydnabod y newidiadau sydd wedi ein hwynebu yn ystod y flwyddyn gan flaenoriaethau'r hyn sydd oedd angen digwydd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag gwybodaeth ar sut mae Gwasanaethau Tai a'i bartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

Mae hefyd yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod ymgynghori a bydd yn cael ei gyflwyno ym mhwyllgor Sgriwtini mis Mawrth.

**2. Amcanion Allweddol**

Defnyddiwyd blaenoriaethau'r Strategaeth bresennol ar gyfer y Strategaeth Dros Dro a fydd hefyd yn sail ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-27. Sef:

- Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

**Cyflwynir y Strategaeth ddiwygiedig, sy'n ystyried adborth o'r broses ymgynghori, i'r Pwyllgor Craffu hwn.**

**3. Ymgynghori**

Rhoddwyd y Strategaeth ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghori ar gyfer sylwadau yn ystod cyfnod o 6 wythnos a ddaeth i ben ar 20 Rhagfyr, 2021. Cafwyd 25 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda'r ymatebion a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn aelodau o'r cyhoedd yn byw ar Ynys Môn.

Gofynnodd yr ymgynghoriad:

- Ydi'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Strategaeth?
- Oes yna unrhyw faterion eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?
- A ydych yn cytuno gyda'r gweithredoedd tymor byr, canolig a hir dymor sydd wedi eu hadnabod mewn ymateb i brif themâu'r Strategaeth?
- Unrhyw sylwadau pellach sy'n ymwneud a'r Strategaeth Dai 2022-27?

Gyda'r mwyafrif, 60%, yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf gyda sylwadau a gymerwyd gan y 9 nad oeddent yn cytuno mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth yn cynnwys rhagor o fanylion / eglurhad ar sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Strategaeth hon.

Roedd 5 ymatebydd yn cynnwys sylwadau ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd ac a ymgorfforwyd, lle y bo'n berthnasol, o fewn y fersiwn ddiwygiedig.

Mae Atodiad 1 yn dangos adroddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cyhoeddwyd Arolwg o Anghenion Tai'r un pryd â'r ymgynghoriad; diben yr holiadur hwn oedd casglu barn pobl sy'n chwilio am gartref ar Ynys Môn. Derbyniwyd 66 o ymatebion gyda 57 o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref ar yr Ynys ar hyn o bryd. Mae 69% o'r ymatebwyr yn chwilio am gartref i'w brynu.

Roedd llawer, 21, yn rhentu'n breifat gyda 23 yn chwilio am gartref cyntaf ac 16 angen cartref mwy. Roedd 44 yn awyddus i brynu a 37 yn awyddus i brynu ar y farchnad agored gyda 14 yn dangos diddordeb mewn rhent cymdeithasol. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r arolwg hwn ar gyfer datblygu Polisi Ecwiti a Rennir a bydd yn cyfrannu at ein gwaith ar gwblhau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae Atodiad 2 yn dangos adroddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

**4. Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Strategaeth Tai 2022-27**

Nod yr ymgynghoriad oedd uchafu cyfleoedd i roi adborth gan amrywiaeth o rhanddeiliaid sydd wedi ei grynhoi isod.
Gwnaed cyflwyniad ar y Strategaeth ddrafft yn y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 14 Mai 2021 | Cyfarfod Grant Tai Cymdeithasol |
| 24 Mai 2021 | Cyfarfod Chwarterol Landlordiaid Tai Cofrestredig |
| 24 Mai 2021 | Panel Iechyd Meddwl |
| 22 Mehefin 2021 | Fforwm Landlordiaid Preifat Ynys Môn |
| 30 Mehefin 2021 | Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai |
| 29 Medi 2021 | Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref |

| | |
|---|---|
| 7 Hydref 2021 | Sesiwn Briffio Misol Cynghorwyr |
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Tai Môn |
| 29 Rhagfyr 2021 | Gweithdy Tai Menter Môn |
| 14 Rhagfyr 2021 | Sesiwn Gwybodaeth Staff Gwasanaethau Tai |

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol
- Datganiad i'r wasg (1 Rhagfyr – mwy o dai cyngor o safon ar y ffordd)
- Tudalennau cyfryngau cymdeithasol Medrwn Môn
- Baner ar dudalen we gorfforaethol

Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos.
Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn).
Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr HSG
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Age Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Shelter Cymru
- Gofal a Thrwsio

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Bydd yn cynnig cyfle i bobl fyw a chyfrannu at eu cymunedau lleol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

| |
|---|
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AE |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae adnoddau wedi cael ei dyrannu / adnabod ar gyfer y gwahanol fentrau a gynhwysir yn y Strategaeth |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Strategaeth Tai 2022-27<br>Ymatebion i'r Ymgynghoriadau<br>Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

**Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27**

## 1. Pwrpas y Strategaeth

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- **Adnabod 6 thema allweddol ar gyfer y Strategaeth**
- **Rhoi trosolwg o'r materion y mae teuluoedd ar yr Ynys yn eu hwynebu**
- **Sut mae'r Strategaeth yn mynd i ymdrin â'r materion hyn, neu ei chyfraniad wrth ddelio â'r materion hyn**
- **Beth sydd angen ei wneud yn ystod cyfnod y Strategaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor**
- **Cynorthwyo gyda Datganiad o Angen bydd yn cael ei ddatblygu**

Nod strategol cyffredinol y Strategaeth yw

**Sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallent alw'n gartref wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol**

## 2. Strategaeth ar gyfer pwy yw hon?

Bydd y Strategaeth hon yn berthnasol i lawer o bobl ar Ynys Môn gan y bydd yn darparu mynediad i dai fforddiadwy, a fydd yn cynnwys llawer o wahanol ddeiliadaethau, llety a chymorth i grwpiau cleientiaid penodol a bregus, pobl sy'n dymuno prynu cartref cyntaf eu hunain, pobl sydd angen addasiadau i'w cartrefi oherwydd salwch a phobl sydd mewn argyfwng ac sydd angen cartref ar frys.

## 3. Sut ydym am gyflawni hyn?

Drwy ganolbwyntio ar 6 thema allweddol:-

- ✓ Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol
- ✓ Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau
- ✓ Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- ✓ Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai
- ✓ Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- ✓ Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol

Bydd y 6 thema allweddol hyn yn darparu sylfaen ar gyfer nodi beth yw'r materion a sut mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn yn ystod y tymor byr o 1 i 2 flynedd, y tymor canolig a'r hirdymor cyfnod y Strategaeth.

Bydd cyflawniadau ym maes tai yn cael eu diweddaru bob blwyddyn er mwyn dangos y cynnydd a wnaed ac i ddarparu naratif am unrhyw faterion sy'n datblygu ac angen eu cynnwys yn y Strategaeth yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

## 4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae'r naratif yn aros fel yr oedd yn y Strategaeth Interim.

Mae **Cynllun y Cyngor** yn darparu fframwaith gwaith ar gyfer pob gwasanaeth y Cyngor ac mae'r Gwasanaeth Tai yn alluogwr blaenllaw ar gyfer ei gyflawni. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu

fframwaith i'r holl wasanaethau gydweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau ac amcanion cyffredin. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar gyfer y cyfnod nesaf 2022 ymlaen.

Mae nifer o Strategaethau yn eistedd o dan y ddogfen hon sy'n bwydo'r Cynllun uchod ac yn cynorthwyo i'w gyflawni.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-26**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Gorffennaf 2017. Mae hwn yn strategaeth datblygu ar gyfer datblygu tir am gyfnod o 15 mlynedd sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn llywio datblygu tai newydd ar yr Ynys, yn ogystal â defnyddiau eraill. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg**

Gweledigaeth Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yw:

- Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol
- Ein holl drigolion yn teimlo'n rhan ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog
- Blaenoriaeth amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol

Mae gan y Strategaeth Tai rôl hanfodol mewn cyflawni'r uchod.

**Polisïau Cenedlaethol:**

**Diwygio Lles**

Fel y cyhoeddwyd yn eang, mae Diwygio Lles wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau ac effeithiau mwyaf sylfaenol ers cyflwyno'r Systemau Lles yn 1946. Daeth Diwygio Lles i rym ar Ynys Môn ddiwedd 2018 a'i gyflwyno fesul cam. Sefydlwyd Hwb Diwygio Lles yn cynnwys Gwasanaethau allweddol y Cyngor ac asiantaethau gyda'r nod o ddarparu ymatebion a chamau lliniaru priodol ac mae wedi gwneud hynny drwy:

- Ddatblygu ymatebion i ganlyniadau uniongyrchol Credyd Cynhwysol
- Ystyried yr oblygiadau hirdymor i ddinasyddion a gwasanaeth ar Ynys Môn yn cynnwys, lle bo'n briodol, amrywiaeth eang o sefyllfaoedd
- Gwella dealltwriaeth yn lleol o sut y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio ar wasanaethau statudol ac anstatudol
- Ymgysylltu â phartneriaid allweddol a'u diweddaru yn ôl y gofyn drwy fecanweithiau partneriaeth sefydledig a nodi a gwella meysydd lle nad yw'r fframwaith hwn yn bodoli neu lle mae'n methu â darparu ymateb priodol
- Cynhyrchu a chynnal cynllun gweithredu gyda chyfres o argymhellion pan ddaw gwaith yr Hwb i ben

Ym mis Gorffennaf 2020, comisiynwyd Asesiad Cychwynnol o'r effeithiau posib ar wasanaethau a chyllidebau CSYM yn sgil cynnydd yn nifer y bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu cynnydd yn nifer yr hawlwyr allan o waith mewn cyfnod byr iawn yn ystod Covid a bod hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc a dynion. Amlygodd yr adroddiad hefyd effeithiau cymdeithasol y cynnydd mewn diweithdra sy'n cynnwys problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig a theimlo'n ynysig.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel conglfaen llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi i ni uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effeithiau hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, iechyd, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau ac amcanion llesiant ym mhopeth y byddant yn ei wneud.

**Grant Cymorth Tai**

Daeth Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i rym ym mis Ebrill 2020 ac mae'n cymryd lle'r Rhaglen Cefnogi Pobl flaenorol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gyfuniad o dri grant oedd yn bodoli'n barod; Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgareddau sydd yn atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai ddod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn cyllido dyletswydd statudol awdurdodau lleol i atal digartrefedd, ond yn hytrach mae gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai yn ehangu, atgyfnerthu a chefnogi'r gwasanaeth statudol er mwyn sicrhau bod y cynnig cyffredinol a ddarperir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n cynorthwyo pobl fregus i fynd i'r afael â'r problemau, sy'n niferus weithiau y maent yn eu hwynebu, megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, cam-drin sylweddau, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar y person, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i sicrhau a chynnal cartrefi addas drwy fynd i'r afael â'r problemau iechyd meddwl a/neu gam-drin sylweddau y maent yn eu hwynebu, gan gynorthwyo i wella eu hiechyd a'u lles a/neu eu helpu i symud ymlaen i waith neu gyfle hyfforddiant, neu symud yn nes at hynny, ar sail eu hamgylchiadau penodol.

Mae cymorth cysylltiedig â thai yn darparu llu o wasanaethau i alluogi pobl fregus i gynnal eu tenantiaeth / aelwydydd ac i fyw'n annibynnol yn y cartrefi a'r cymunedau o'u dewis am gyhyd â phosib.

**Datgarboneiddio**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon, ac yng Nghymru'r targed yw o leiaf 80% o ostyngiad erbyn 2050. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell, Gorffennaf 2019, yn gwneud 7 argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu harwain ac mae'n datgan

'Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf thermol effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o'r stoc dai yng Nghymru cyn 1919, pan nad oedd unrhyw safonau adeiladu o ran perfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi yng Nghymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae gofynion perfformiad ynni wedi newid yn sylweddol.'

Mae Cynllun diweddar Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel" yn cynnwys pennod gyfan ar adeiladau yn seiliedig ar bob math o ddeiliadaeth a nodir bod adeiladau preswyl yn gyfrifol am y ffynonellau uchaf o allyriadau fel cyfanswm allyriadau Cymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn rhan o'r gwaith datgarboneiddio.

**Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Modern o Adeiladu Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020**

Strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau ynghylch cynhyrchu tai wedi eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern sy'n annog defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol ochr yn ochr â thechnolegau a dulliau newydd.

**Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Hydref 2019**

Mae'n datgan yn glir nad oes modd atal digartrefedd drwy dai yn unig. Mae digartrefedd yn golygu person sydd heb lety neu ble nad yw eu tenantiaeth yn ddiogel. Cysgu allan yw ochr fwyaf gweledol a difrifol y sbectrwm digartrefedd, ond mae digartrefedd yn cynnwys unrhyw un nad oes ganddynt lety, nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llety neu ble nad yw'n rhesymol iddynt barhau i feddiannu llety. Byddai hyn yn cynnwys gorlenwi, 'syrffio soffas', dioddefwyr camdriniaeth a llawer mwy o sefyllfaoedd. Mae person yn ddigartref hefyd os yw eu llety yn strwythur symudol ac nad oes ganddynt unman i roi'r strwythur hwnnw. Gall digartrefedd, neu'r risg o fod yn ddigartref, gael effaith ddinistriol ar unigolion a'u teuluoedd. Mae'n effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles, ac ar ddatblygiad ac addysg plant, ac mae'n rhoi unigolion mewn perygl o fod mewn sefyllfa sy'n gwaethygu a'u bod yn wynebu ffurfiau mwy difrifol o ddigartrefedd.

**Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol**

Mabwysiadwyd Strategaeth Ranbarthol gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyda'r nod o Leihau Digartrefedd ar draws Gogledd Cymru o dan y penawdau Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau a oedd yn nodi themâu a oedd yn gyffredin i bob Awdurdod Lleol yn eu hadolygiadau unigol. Byddai cynllun gweithredu rhanbarthol a lleol wedyn yn ymgorffori'r materion allweddol a'r camau angenrheidiol. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-21 oedd ein hymateb i'r pandemig.

**Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016**

Mae'r Ddeddf hon yn ceisio gwneud rhentu cartref yn fwy syml ac yn ceisio diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn darparu dau fath o gontract meddiannaeth yn unig (diogel a safonol) i gymryd lle'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ail gyflwyno'r holl gytundebau tenantiaeth bresennol a newydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, ar gyfer pobl mewn tai a rennir ac ar gyfer tenantiaid lle mae angen gwneud gwaith atgyweirio ar eu cartrefi.

**Cynllun Gwaith Cydraddoldeb Hilio Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bryd gweithredu ar frys mewn hyrwyddo gweledigaeth i Gymru lle mae pawb yn cael eu trin fel dinesydd cyfartal ac rydym fel Cyngor wedi cyfrannu i'r ddogfen ymgynghori fydd yn arwain at Gynllun Gwaith Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein Strategaeth Tai yn hyrwyddo'r nod cyffredinol o 'sicrhau bod bob aelod o'n Cymdeithas yn gallu byw mewn cartref sydd yn addas a fforddiadwy sydd yn cwrdd ag amrywiaeth o anghenion'

**Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai**

Fel un o 11 o Gynghorau Cymru sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai Cyngor mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a diweddaru Cynllun Busnes CRT bob blwyddyn, a darparu adroddiad blynyddol ar ein gweithgareddau yn ogystal â throsolwg o ddatblygiadau newydd gan ein partneriaid allweddol sef y Landlordiaid Cofrestredig Cymdeithasol sy'n gweithredu ym Môn.

**Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn adolygiad o anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i cynhyrchwyd gan y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf).

**Fforddiadwyedd**

Nid yw'r Sector Rhent Preifat ar Ynys Môn yn farchnad arbennig o fforddiadwy gyda chyfran isel iawn o eiddo ar gael o fewn lefelau'r Lwfans Tai Lleol. Mae prynu cartref yn parhau i fod tu hwnt i afael nifer o brynwyr tro cyntaf oherwydd prisiau uchel eiddo o gymharu â lefelau incwm lleol a'r blaendal sydd ei angen.

Mae hyn, yn ogystal â diffyg argaeledd tai cymdeithasol addas, wedi golygu bod nifer o'r teuluoedd hyn yn troi at y farchnad rhent. Ar hyn o bryd, mae 22% o holl boblogaeth Ynys Môn yn derbyn naill ai Cymhorthdal Tai neu gymorth ariannol gyda'r Dreth Cyngor ac mae 59.9% o'r aelwydydd hyn mewn oed gwaith ac yn cael eu heffeithio gan yr holl ystod o ddiwygiadau lles.

Dangosodd yr adroddiad Policy in Practice, 2017 bod 74.4% o'r aelwydydd hyn yn talu rhent sy'n uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol a ddefnyddir ar gyfer Budd-dal Tai. Ar gyfartaledd, y gwahaniaeth rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai yw £25.74 yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd (79.3%) y mae'r cap ar y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt ar Ynys Môn mewn oed gweithio.

Mae adroddiad a gomisiynwyd yn edrych ar y Sector Rhent Preifat yn dangos bod landlordiaid yn codi rhwng 10% ac 20% yn uwch na lefelau'r Lwfans Tai Lleol gan wybod y bydd rhaid i aelwydydd ariannu'r rhent ychwanegol. Ymddengys bod fforddiadwyedd yn broblem, yn arbennig i aelwydydd sydd ar incwm is neu ar fudd-daliadau. Bydd rhai landlordiaid yn datgan 'dim DSS' tra bod eraill yn osgoi tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol oherwydd eu bod yn ofni oblygiadau *rhent uniongyrchol*. Bydd landlordiaid sy'n derbyn tenantiaid ar fudd-daliadau yn cymryd mis o flaendal a / neu'n gofyn am warantwr all dalu'r rhent yn llawn.

Cynhaliodd Ynys Môn arolwg o landlordiaid sector preifat yn ystod 2017. Anfonwyd yr arolwg at 384 o landlordiaid preifat ac roedd y gyfradd ymateb yn 11%. I grynhoi, roedd yn dangos bod y mwyafrif yn dweud eu bod yn berchen un tŷ, roedd 74% o denantiaid yn aros rhwng 1 a 5 mlynedd, roedd 42% yn hawlio Budd-dal Tai. Edrychom hefyd ar beth fyddai'n cymell landlordiaid i osod i denantiaid ar Fudd-dal Tai. Yr ymatebion oedd y byddai 71% yn gwerthfawrogi rhyw fath o gymorth tenantiaeth ac roedd 85% eisiau rhyw fath o warant rhent. Y math o broblemau a gafodd eu hadrodd oedd ôl-ddyledion rhent, 52%, a thenantiaid yn achosi difrod i'r eiddo, 48%. Pan gynigiwyd rhestr o gymhellion, a gofyn i landlordiaid eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth, y flaenoriaeth fyddai cymorth ariannol i wneud mân welliannau a gwarant rhent ar gyfer eiddo gwag hyd nes bod tenantiaid addas yn cael eu canfod.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, ym mis Rhagfyr 2020, fod nifer o Denantiaid Preifat yn ei chael yn anodd fforddio prynu bwyd neu wresogi eu cartref. Roedd nifer yn rhoi blaenoriaeth i dalu rhent, ac roedd rhai yn gorfod benthyg arian gan deulu neu ffrindiau er mwyn cwrdd â'u hymrwymiadau. Byddai'n fater o bryder bod tri o'r pumdeg dau a gwblhaodd yr arolwg wedi defnyddio benthycwyr arian er mwyn gallu talu eu rhent. Nid oedd y tenantiaid hynny a oedd yn ei chael yn anodd fforddio eu rhent, neu a oedd mewn dyled, wedi trafod y problemau hyn gyda'u landlord a dim ond un unigolyn oedd wedi cytuno ar gynllun ad-dalu.

Yn ogystal, roedd yr arolwg yn gofyn a oedd tenantiaid yn ymwybodol o'r cymorth y gellid ei gynnig ac o'r rhai a ymatebodd, roedd pymtheg yn ymwybodol o'r cyngor, gwybodaeth a'r cymorth y gallai'r Awdurdod Lleol ei ddarparu i atal teuluoedd yn yr ardal rhag dod yn ddigartref. Roedd nifer wedi gofyn am wybodaeth bellach ynghylch gwneud y mwyaf o incwm, cymorth tenantiaeth a hawliau tenantiaeth ac anfonwyd y manylion hyn at y gwasanaethau er mwyn iddynt gymryd camau pellach.

**Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 'niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers cryn dipyn o flynyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai lleol gan y rheiny sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr.

Yn aml, lleolir ail gartrefi yn y cymunedau Cymraeg ac o'u cwmpas, a gall hyn arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau sy'n greiddiol i ffyniant hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach eraill, yn effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol ac yn codi prisiau yn y farchnad dai lleol, weithiau yn sylweddol.

Nododd adroddiad diweddar gan Wasanaeth Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn bod 'Y pris cyfartalog ar gyfer tŷ yn Ynys Môn yw £170,000 a gydag incwm cyfartalog yn £27,445 mae'r gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 6:2:1 gan olygu fod 62.2% o bobl leol wedi prisio allan o'r farchnad. Mae'r ystadegau yn llawer iawn uwch yn yr ardaloedd hynny sydd hefo cyfraddau uwch o ail-gartrefi. Yn Rhosneigr ble fo 35.12% o'r tai yn yr ardal cyngor cymuned yn gartrefi gwyliau, y pris tai cyfartalog yw £263,00. Gydag incwm cyfartalog aelwydydd yn £31,596 golygai fod y gymhareb prisiau tai i fforddiadwyedd yn 8:3:1'.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y pwysau a wynebir gan deuluoedd ac aelwydydd wrth ddymuno cael mynediad i dai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol yn ystod newid digynsail yn y farchnad dai sydd wedi gweld cynnydd enfawr ym mhrisiau tai. Amlygodd yr Arolwg Diweddar o Anghenion tai y math o atebion tai lleol a'r angen amdanynt ac y bydd y Strategaeth hon yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o opsiynau tai ar gyfer trigolion Ynys Môn.

**Thema 1 – Datblygu'r cartrefi cywir ar gyfer Ynys Môn yn y dyfodol**

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae cyfnod Covid wedi dangos pa mor bwysig ydyw i bobl allu byw o fewn cymunedau lleol ac wedi eu cysylltu yn ddigidol.
- Mae cyflogau yng Ngogledd Cymru ymhlith yr isaf ym Mhrydain a chyda cynnydd mewn rhenti yn y sector breifat a phrisiau tai yn codi mae cael mynediad i dai fforddiadwy yn anos.
- Bydd prisiau tai cyfartalog yn parhau i godi gyda materion fel ail gartrefi yn cael sylw ar lefel lleol a chenedlaethol.
- Mae darparu amrywiaeth o fathau o gynlluniau tai fforddiadwy yn bwysig i helpu ystod o aelwydydd ar gyfer pobl sengl, teuluoedd ac aelwydydd sydd angen cymorth ac eiddo wedi'i addasu sydd hefyd yn cynnal cymunedau Cymraeg.

**Beth ydym am ei wneud?**

Adeiladu cartrefi mewn cymunedau gyda'n Partneriaid Tai allweddol, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau gwledig i ddeall y gwir angen am dai o fewn y cymunedau.

Bydd y Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cynnig eiddo rhent cymdeithasol, rhenti canolradd, hunan adeiladu a chymorth i brynwyr tro cyntaf ar y cyd hefo ein Partneriaid Tai a gyda'n Cynllun Rhannu Ecwiti.

Sicrhau bod safleoedd addas yn cael eu darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol ar angen sydd wedi ei adnabod yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Yn ystod y tair blynedd nesaf, cynyddu stoc tai'r Cyngor gan 176 o gartrefi a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (ein Partneriaid Tai allweddol) gan 144 o gartrefi a byddwn yn annog enwau Cymraeg ar y stadau tai newydd.

*Bydd hwn yn weithred tymor hir gyda tharged wedi ei osod am y 3 blynedd nesaf fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol.*

Adolygu data er mwyn diweddaru'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a fydd yn cynnwys prosbectws o'r angen am dai ar gyfer yr Ynys.

*Mae hwn yn weithred tymor byr fydd yn cael ei adolygu.*

Ymateb i'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr cyfredol yn ogystal â chynnal asesiad yn ystod 2021 ac ymateb i unrhyw angen sy'n datblygu.

*Bydd hwn yn weithred tymor canolig i hir.*

**Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai presennol a gwella cartrefi a chymunedau**

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae cartrefi gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned ac yn creu cwynion y mae'n rhaid i'r Cyngor a sefydliadau eraill ddelio â nhw.
- Rhentu yn y Sector Preifat yw'r unig ddewis i rai teuluoedd.
- Cynorthwyo cymunedau i fedru cynnig rhwydwaith o gyfleoedd gwirfoddoli, chynhwysol a digidol i gyfranogi neu ofyn am gymorth pryd a phan fydd pobl ei angen.
- Mae'r agenda datgarboneiddio yn ceisio gwneud tai yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau ein ôl-troed carbon.
- Bydd gofyniad Deddf Rhentu Tai Cymru yn dod yn weithredol yng Ngwanwyn 2022 fydd yn effeithio bob tenantiaeth breifat a chymdeithasol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, gydag o leiaf 50 o dai yn ystod 2021-22.

Targedu'r tai mwyaf problemus o fewn cymunedau a gwella tai o fewn y sector breifat.

Hwyluso rhwydweithio cymunedol a chefnogi cynlluniau ar gyfer hyrwyddo Cynllunio Lle.

Cynhyrchu Strategaeth Datgarboneiddio.

Cydweithio i annog negeseuon cyson am Ddeddf Rhentu Tai

**Sut ydym am wneud hyn?**

Adolygu ein Strategaeth Tai Gwag ar gyfer y cyfnod nesaf, 2023-28.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

*Mae'r isod yn weithredoedd sydd yn barhaol gyda monitro rheolaidd:*

Cynnig cyngor ac ymgysylltu â landlordiaid preifat er mwyn annog cyflenwad da o gartrefi er mwyn helpu pobl sydd yn derbyn cefnogaeth i gynnal eu tenantiaeth neu sydd â phroblemau gyda'u tenantiaeth.

Cynnig cyngor, grantiau a benthyciadau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig rhannu ecwiti a chymorth i brynwyr tro cyntaf drwy ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai a'r incwm Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r mentrau yma.

Darparu cyngor ynghylch tlodi tanwydd, cynhwysiant digidol ac ariannol a materion ariannol eraill sy'n effeithio ar deuluoedd a chyfeirio pobl at fentrau megis y Fenter Garbon Isel Cartrefi Hapus.

Cymryd camau pendant i geisio cyfleoedd i leihau allyriadau ac edrych ar ffynonellau gwres amgen a chyfleoedd cyllido.

Cyflwyno newidiadau Deddf Rhentu Cymru ar gyfer ein holl denantiaid fel sydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

**Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai**

**Pam fod hyn yn bwysig?**

- Mae arwyddion cynnar yn awgrymu na fydd y statws angen blaenoriaeth mewn perthynas â digartrefedd yn cael ei adfer a bydd y pwysau ychwanegol yn parhau yn yr i'r Timau Asesu Tai, Datrysiadau Tai a Darparwyr Cefnogaeth Tai.
- Aelwydydd pobl sengl yw'r categori uchaf o hyd o ran nifer y bobl sy'n troi at ein Gwasanaeth Digartrefedd, ac mae gan nifer o'r rhai sy'n gofyn am gymorth anghenion cymhleth.
- Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch gwir effeithiau Covid wrth i gyfyngiadau ar ryngweithio cael eu cyflwyno yn fyr rybudd gan olygu bod teuluoedd ac aelwydydd yn gorfod delio â thensiynau, trais domestig a phroblemau iechyd meddwl yn ystod cyfnodau hirach o gael eu hynysu ynghyd a llai o ryngweithio cymdeithasol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Bydd angen cael darpariaeth ar gyfer llety argyfwng i sicrhau bod y rheiny sy'n ddigartref yn cael mynediad i lety. Drwy weithio yn unol ag egwyddorion ailgartrefu yn gyflym rhoddir pwys lais ar sicrhau llety addas ynghyd â chymorth i gyd-fynd ag anghenion y person neu'r teulu fel eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth yn y dyfodol.

Bydd ein Cronfa Atal Ddigartrefedd yn cynorthwyo i atal digartrefedd ymysg y rhai sydd â'r risg mwyaf o golli eu tenantiaeth neu a fyddai'n dod yn ddigartref.

Bydd parhau i weithio a datblygu cysylltiadau gyda landlordiaid y sector rhent preifat yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'n gwaith dyddiol yn ystod cyfnod y Strategaeth.

Bydd delio gyda phroblemau'n ymwneud â thlodi yn dod yn un o brif nodweddion yr agenda Corfforaethol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu targedu at aelwydydd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael cymorth yn ôl y gofyn.

Gweithredu'r Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Targedir ein Grant Cymorth Tai tuag at wasanaethau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaeth gan osgoi digartrefedd drwy sicrhau bod teuluoedd mewn llety addas ac atal digartrefedd drwy ein gwasanaethau cymorth.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Darparu o leiaf 33 cartref sy'n cynnig dull ailgartrefu cyflym wrth ddelio gyda digartrefedd yn ystod y flwyddyn i ddeunaw mis nesaf.

*Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn cael ei adolygu yn flynyddol wrth i ni weithio tuag at yr egwyddor hon dros y tymor hir.*

Datblygu cynllun cyfathrebu Gogledd Cymru ar gyfer Tenantiaid Preifat er mwyn hyrwyddo cyngor amserol ynghylch sut y gall Timau Asesu a Datrysiadau Tai gynorthwyo gyda phroblem barhaus cyn iddi ddatblygu'n argyfwng digartrefedd.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Hyrwyddo mentrau lleol megis Bwyd Da Môn.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Ataliol Corfforaethol er mwyn hyrwyddo cydweithio i atal teuluoedd rhag mynd i sefyllfa o argyfwng sydd hefyd yn arbed ar gostau gwasanaethau statudol drwy ddarpariaeth o wasanaethau yn lleol.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

**Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai**

**Pan fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Mae cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae gwaith a gweithgareddau nifer o Wasanaethau Tai a'i bartneriaid yn cyfrannu tuag at hyn, o Gyfranogiad Tenantiaid i'r Grant Cymorth Tai, gan rymuso pobl fel eu bod yn gallu cyfrannu a chymryd rhan yn eu cymuned.
- Mae cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau er mwyn derbyn cefnogaeth yn allweddol er mwyn atal argyfyngau ac ymyrraeth drwy ymyrraeth statudol.

**Beth ydym am ei wneud?**

Dosbarthu'r Grant Cymorth Tai i'n darparwyr sy'n adlewyrchu'r anghenion a nodwydd yn yr asesiad o anghenion.

Darparu gwasanaeth cyflawn ar gyfer dioddefwyr trais domestig.

Rydym yn awyddus i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a digidol er mwyn atal unigrwydd.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Mae'r data mapio anghenion yn parhau i lywio gwasanaethau yn y dyfodol ac mae iechyd meddwl, digartrefedd, cam-drin alcohol a chyffuriau yn parhau i fod yn broblem.

*Mae hwn yn weithred tymor byr sydd yn bwydo fewn i gynllun tymor hir.*

Drwy weithio gyda Gwasanaethau Plant mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn cael eu darparu mewn modd cydlynol drwy gynnig mynediad i wasanaethau drwy'r gwasanaeth Un Drws Blaen.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 gan gynnwys y cyfle i gynyddu cynhwysiad digidol.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

**Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach**

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o thua 70% yn nifer y bobl dros 85 oed sy'n byw ar yr Ynys yn ystod y 10 mlynedd nesaf.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu fframwaith Cymunedau Cyfeillgar.
- Mae hyrwyddo annibyniaeth yn agwedd allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Mae pobl a theuluoedd yn wynebu argyfyngau fel rhyfel a thrais mewn gweledydd eraill ac rydym yn barod i gynorthwyo gyda chynlluniau ail sefydlu teuluoedd yma ym Môn.

**Beth ydym am ei wneud?**

Sicrhau bod ein darpariaeth Tai â Chymorth yn parhau i gynnig tai priodol a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r stoc yn ogystal â chynnig cymhellion i symud i dŷ llai.

Cwblhau achos busnes ar gyfer trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr Ynys a chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer datblygu'r cynllun trwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

Hyrwyddo model o bresgripsiwn cymdeithasol drwy Wasanaethau Oedolion a chynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth fel sydd ei angen o dan Ddeddf Cymru Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Bydd gwaith yn parhau o ran gweithio tuag at gynnig gwasanaeth cyson pan fydd teulu neu unigolyn yn gwneud cais i addasu eu cartrefi, ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth ar eu cartref, h.y. hunan berchnogion neu denantiaid.

Bydd Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd (Gwasanaethau Di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu) i ddarparu'r ddarpariaeth orau ar gyfer pobl ag anableddau drwy drefniadau grant ar gyfer tai presennol a thai newydd.

Cydweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar gynlluniau Adleoli Cenedlaethol.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Datblygu'r math cywir o dai yn yr ardal gywir gan wneud darpariaethau ar gyfer pobl hŷn mewn datblygiad gofal ychwanegol yn ogystal ag edrych ar yr opsiwn o lety ar gyfer pobl hŷn.

*Mae hwn yn weithred tymor byr i ganolig.*

Bydd cael therapydd galwedigaethau yn y Gwasanaethau Tai yn cynorthwyo o ran darparu cyngor a datrysiadau addasu ac amserol i'r rheiny sydd angen mynediad i eiddo rhent cymdeithasol yn ogystal â sicrhau bod datblygiadau newydd yn addas ar gyfer teuluoedd neu unigolion sydd angen cartrefi wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau Oedolion i wireddu eu Strategaeth Letya Pobl Hyn.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

Cynnig set cytunedig o Safonau Gwasanaeth ar gyfer addasiadau, yn ddiwahaniaeth ar y math o ddeiliadaeth unigolion ar eu cartref er mwyn sicrhau bod rhai sydd yn derbyn addasiadau i'w cartrefi yn cael y safon gorau o wasanaeth.

*Mae hwn yn weithred tymor byr.*

Cydweithio gyda Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i rannu gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a lleoliadau posib i gael llety.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Cytuno ar gynlluniau Adsefydlu Ffoaduriaid.

*Mae hwn yn weithred tymor hir.*

**Thema 6 – Mae tai yn cyfrannu at yr economi leol**

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Ynys Môn?**

- Gall buddion Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ddeillio yn uniongyrchol o adeiladu cartrefi newydd a chyfarpar byw'n ddoeth (smart living). Gall y Cyngor a phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael effaith uniongyrchol ar hyn drwy adeiladau tai fforddiadwy newydd yn ogystal â derbyn Grant Tai Arloesol sy'n hyrwyddo'r defnydd o fesurau sy'n gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran y defnydd o ynni.
- Mae angen datblygu tai fforddiadwy a thai marchnad agored addas er mwyn cefnogi twf yn yr economi mewn trefi ac ardaloedd gwledig.
- Mae gwybodaeth ddiweddar wedi tynnu sylw at y ffaith bod y diffyg cartrefi fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol eu prynu wedi'i gysylltu â phobl sydd bellach yn gallu gweithio gartref ac felly'n ail/leoli i Ynys Môn ynghyd â chynnydd mewn ail gartrefi a'r farchnad gwyliau fel Air B&B.
- Mae cyferbyniad yn bodoli o hyd rhwng ffyniant economaidd a lefelau amddifadedd cymdeithasol mewn rhai o'r cymunedau mwyaf ffyniannus a'r rhai tlotaf.
- Bydd rôl tai yn ystod yr adfer yn dilyn Covid a'r adferiad gwyrdd yn holl bwysig.

**Beth ydym am ei wneud?**

Mae gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru nod i wella effeithiolrwydd ynni cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i annog mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol i dendro am gontractau gwaith ac annog cyfleoedd am ddulliau adeiladau sy'n lleihau carbon ac ôl-osod.

Ymateb i'r heriau mae ail gartrefi yn cyflwyno o ran darpariaeth tai fforddiadwy a chynlluniau gan LLC i ymateb i'r materion hyn.

Mae Gwasanaethau Tai a'i Phartneriaid yn cyfrannu yn helaeth at yr economi yn lleol drwy nifer o gontractau gwaith, adeiladu ac adnewyddu ynghyd ag contractau gwasanaeth sydd yn cefnogi darparwyr cefnogaeth leol a rhoddi cyfleon gwaith.

**Sut ydym am wneud hyn?**

Parheir i gefnogi Prosiectau Adfywio megis dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd tra bydd cyllid ar gael.

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

Mae'r Gwasanaethau Tai a'i Bartneriaid Tai allweddol yn parhau i gefnogi nifer o gwmnïau lleol drwy cynnig cytundebau gwaith drwy ei gynlluniau gwaith cynnal a chadw cynlluniedig, gwaith ôl-osod,

rhaglenni adeiladu tai newydd ac adnewyddu hen dai Cyngor sy'n cael eu prynu'n ôl. Mae gan ein contractau gwasanethau hefyd gyfraniad pwysig i'w wneud yn lleol gan gefnogi swyddi a chreu chyfleoedd.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

Byddwn yn annog cyfleoedd i gydweithio i ymateb i'r her o ddatgarboneiddio a chyfleoedd lleol i annog cyfleoedd gwaith ac ail-sgilio unigolion e.e. drwy gydweithio gydag MSparc a cholegau lleol.

*Mae hwn yn weithred barhaol.*

Drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen Ail Gartrefi byddwn yn edrych ar ddatrysiadau i liniaru sgil effeithiau ail gartrefi ar ein cymunedau a thrigolion .

*Mae hwn yn weithred tymor canolig.*

**Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad Strategaeth Tai 2022-27**

**Rhagfyr 2021**


Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion a gaf wyd i ymgynghoriad Strategaeth Tai 2022-27.

1. **Cefndir:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Tai ddrafft 2022-27 am gyfnod o 6 wythnos.

Nod Strategol cyffredinol y Strategaeth yw sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallant ei alw'n gartref wedi ei grymuso i gyfrannu at eu cymuned leol a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y byr, canolig a hir dymor drwy'r chwe thema ganlynol:




Yn dilyn yr ymgynghoriad ar ein Strategaeth Dai Interim cyfredol, teimlwyd y dylai'r 6 thema aros yr un fath ar gyfer y Strategaeth 5 mlynedd, ac o ganlyniad roedd Gwasanaethau Tai yn gofyn am farn ar y materion a gweithredoedd sydd wedi eu hadnabod o fewn y Strategaeth Dai 2022-27.

2. **Methodoleg:**

Cafodd cyflwyniad o'r Strategaeth ddrafft ei ddarparu yn y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 14 Mai 2021 | Cyfarfod Grant Tai Cymdeithasol |
| 24 Mai 2021 | Cyfarfod Chwarterol Landlordiaid Tai Cofrestredig |
| 24 Mai 2021 | Panel Iechyd Meddwl |
| 22 Mehefin 2021 | Fforwm Landlordiaid Preifat Ynys Môn |
| 30 Mehefin 2021 | Fforwm Darparwyr Grant Cymorth Tai |
| 29 Medi 2021 | Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref |
| 7 Hydref 2021 | Sesiwn Briffio Misol Cynghorwyr |
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Tai Môn |

| | |
|---|---|
| 29 Rhagfyr 2021 | Gweithdy Tai Menter Môn |
| 14 Rhagfyr 2021 | Sesiwn Gwybodaeth Staff Gwasanaethau Tai |

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:


- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol
- Datganiad i'r wasg (1 Rhagfyr – mwy o dai cyngor o safon ar y ffordd)
- Tudalennau cyfryngau cymdeithasol Medrwn Môn
- Baner ar dudalen we gorfforaethol

Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos.
Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn).
Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr HSG
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Age Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Shelter Cymru
- Gofal a Thrwsio

**3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad:**

Cafwyd 25 ymateb i'r holiadur ar-lein. Mae Siart 1 yn dangos pa grŵp roedd pob ymatebwr yn berchen iddo.




Roedd y rhai a oedd am ddatgan pa sefydliad yr oeddent yn ymateb ar ei ran fel a ganlyn:

- Community councillor
- I'd like to say there's to many people like us has pets and couple like us is very hard to find privately rented house accept pets. People like us has to suffer every privately property should be made aware to have pets.
- Welsh Government funded Digital Inclusion project
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Cymdeithasau Tai

Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur isod.

**Ydi'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod y materion a'r blaenoriaethau pwysicaf sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfnod y Strategaeth?**

Roedd 60% o'r ymatebwyr o'r farn bod Strategaeth Tai 2022-27 wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer cyfnod y strategaeth.




**Oes yna unrhyw faterion tai eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?**


Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl Pynciau / Gwasanaethau lle nad yw'r Strategaeth Dai yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol.

| **Testun / Gwasanaeth Topic / Services** | **Gwasanaeth Cynllunio / Planning Service** | **Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services** | **Gwarchod bywyd gwyllt /Wildlife conservation** |
|---|---|---|---|
| **Nifer o sylwadau / No. of responses received** | 4 | 1 | 1 |

Mae'r holl sylwadau eraill wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Tai terfynol 2022-27.

**Wrth ymgynghori ar ein Strategaeth Interim 2020-21 fe gadwyd y prif themâu'r un fath. Mae'r Strategaeth Dai 2022-27 wedi adnabod gweithredoedd sydd ei angen o fewn y tymor byr, canolig a hir dymor fydd yn ymateb i'r prif themâu hyn. A ydych yn cytuno gyda rhain?**

Fel y gwelir yn y siart isod, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau y mae angen i'r Adran Dai eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.




Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ol Pynciau / Gwasanaethau

| **Testun / Gwasanaeth** | **Gwarchod bywyd gwyllt /Wildlife conservation** |
|---|---|
| **Nifer o sylwadau / No. of responses received** | 1 |

Mae'r holl sylwadau eraill wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Tai terfynol 2022-27.

**Mae'n ofynnol i ni ystyried a cheisio barn ar effaith ein cynlluniau ar y Gymraeg ac rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iaith. Pa effeithiau y gallai Strategaeth Dai 2022 i 2027 eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg? Sut ydych chi'n meddwl y gellid hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

*Noder na ofynnwyd y cwestiwn hwn i ddechrau fel rhan o'r ymgynghoriad (ychwanegwyd y cwestiwn ar 5 Tachwedd) ac o ganlyniad ni fydd rhai ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn.*

Mae sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion blwch sylwadau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl Pynciau / Gwasanaethau, gyda rhai yn berthnasol i'r asesiad effaith cydraddoldeb ac iaith.

| **Testun / Gwasanaeth** | **Ail Gartrefi / Second Homes** | **Cynnal Cymunedau Cymraeg / Sustaining Welsh communities** | **Gwasnaeth Cynllunio /Planning Services** | **Gwarchod Bywyd Gwyllt / Wildlife conservation** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer o sylwadau / No. of responses received** | 4 | 5 | 1 | 1 |

4. **Canlyniad:**

Cafwyd 25 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid.


Gyda 60% yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf gyda sylwadau a gymerwyd gan y 9 nad oeddent yn cytuno, mae'r fersiwn ddiwygiedig y Strategaeth yn cynnwys rhagor o fanylion / eglurhad ar sylwadau a oedd yn berthnasol i'r Strategaeth hon.

Roedd 72% o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau y mae angen i'r Gwasanaeth Tai a'i brif bartneriaid eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Roedd 5 ymatebwr wedi cynnwys sylwadau ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd, ac o ganlyniad mae'r rhain wedi eu cynnwys lle y bo'n berthnasol, o fewn y fersiwn ddiwygiedig.


**Canlyniadau Arolwg Anghenion Tai**

**Rhagfyr 2021**


1. A ydych yn chwilio am gartref ar Ynys Môn?





2. Beth yw eich oedran?



3. Beth yw incwm gros (cyn treth) blynyddol eich aelwyd?





4. A ydych ar hyn o bryd yn:




Arall:

- Homeless
- Live with ex partner
- Byw mewn tŷ sydd pia teulu
- Living in a caravan

5. Beth yw eich rheswm am fod eisiau symud tŷ?





Arall:


- Adeiladu tŷ ar y fferm i ymddeol iddo
- angen cartref mwy i fy nheulu - gadael pentref llawn o dai haf,
- Angen symud yn ôl i fy nghynefin i ofalu am rieni
- Build a house on parents land
- Eisiau symud o lle dwi ynddo rŵan
- Housing disrepair
- I fod yn berchen tŷ, ardd mwy
- I want to come home
- I would prefer to own than rent
- Need home of my own as live with daughter and partner
- Rat infestation and black damp mould
- Unable to afford a mortgage and would like to feel secure within my home for years to come
- Want permanent home at affordable rent

6. Ym mha ardal cyngor cymuned ydych yn byw ar hyn o bryd?
Roedd ymatebwyr yn byw mewn eang o ardaloedd cynghorau cymuned ar draws yr Ynys, gyda'r mwyafrif yn byw mewn trefi fel Porthaethwy (10%), Amlwch (8%), Caergybi (6%), Llangefni (6%) a Llanfairpwll (6%).


7. A ydych yn chwilio i:





8. Os ydych yn edrych i brynu, a oes gennych ddiddordeb mewn un o'r cynlluniau canlynol?



9. Os ydych yn edrych i rentu, a oes gennych ddiddordeb mewn un o'r cynlluniau canlynol?





10. Faint o ystafelloedd gwely sydd ei angen?




11. Ym mha ardal cyngor cymuned ydych yn chwilio am gartref?
Roedd ymatebwyr yn chwilio am gartref mewn sawl ardal ar yr Ynys, ond yr ardaloedd mwyaf poblogaidd oedd Porthaethwy (15%) a Llanfairpwll (9%).

12. A ydych ar unrhyw un o'r cofrestrau tai canlynol?




13. Yn eich barn chi, oes rhywbeth yn eich rhwystro rhag dod o hyd i gartref addas?

Cafwyd ateb ar gyfer y cwestiwn yma gan 56 o'r 66 o unigolion a gwblhaodd yr arolwg, gyda'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod prisiau tai ar yr Ynys yn llawer rhy uchel gyda'r sefyllfa'n cael ei waethygu gan ail gartrefi a chartrefi gwyliau. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd fod diffyg cyflenwad tai ar yr Ynys a bod Polisi Cynllunio yn cyfrannu tuag at hyn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| V0.1 | Hydref 2021 | |
| V0.2 | Ionawr 2022 | Cwestiwn 18 |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Strategaeth Dai CSYM 2022-27 |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Yn disodli'r Strategaeth Dai Interim ar gyfer Ynys Môn |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Mae'r Strategaeth Dai ar gyfer Ynys Môn yn cwrdd â dyletswydd statudol y Cyngor i roi arweiniad o ran gwella gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer yr ynys. Mae'n egluro'r sail tystiolaeth ar gyfer anghenion tai'r sir a'r canlyniadau blaenoriaeth i'r Cyngor o ran cwrdd â'r rhain. |

| **Cam 1: Y Cefndir** | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Strategaeth Tai Interim 2021-22<br><br>Mae'r Strategaeth Dai'n helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Gorfforaethol | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | ydi | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Holl ddinasyddion Ynys Môn o bosib, ond yn enwedig y rheini sy'n fregus ac / neu sy'n cael trafferth i gwrdd â'u hanghenion tai ar y farchnad agored. Mae grwpiau y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt yn cynnwys pobl hŷn, pobl gydag anableddau a'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan amddifadedd cymdeithasol.<br><br>Mae partneriaid allweddol o ran darparu tai gwell yn cynnwys darparwyr tai (cymdeithasau tai, landlordiaid preifat), sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth tai a chynorthwyo'r digartref, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd Ileol. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu'r Gymraeg yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Bydd yn cynnig cyfle i bobl aros o fewn eu cymunedau a chyfrannu a defnyddio gwasanaethau lleol sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i bobl fanteisio ar gyfleon addysg lleol, yn cynnwys addysg cyfrwng Cymraeg |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd unrhyw wasanaethau yn gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu naill ai'n Gymraeg neu ddwyieithog er mwyn caniatau siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ddiofyn |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Credwn y bydd ac yn cyfrannu ar gyflawni gweledigaeth maes blaenoriaeth tri Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26, y Gymuned, sef; 'Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.' |

Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
|---|
| **dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . |

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br><br>Ni fyddai'r strategaeth yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol.<br><br>Dylai gefnogi Erthygl 8 – hawl i fywyd preifat a bywyd teuluol drwy sicrhau llety digonol a phriodol ar gyfer pob aelwyd. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | **yndi** |
| | Cymru gydnerth | **yndi** |
| | Cymru iachach | **yndi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **yndi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **yndi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **yndi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **Bydd tai newydd o safon uchel effeithlonrwydd ynni** |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cafodd y Strategaeth ddrafft ei datblygu drwy drafod gyda staff sy'n cynrychioli'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud â thai drwy'r Cyngor Gwahoddwyd yr holl Gynghorwyr Sir i sesiwn brifio ynghyd a chyflwyniad yn Fforwm Tref A Chymuned. |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| | Ymgynghorwyd hefyd gyda nifer o ran ddeiliad allanol er mwyn annog ymateb i'r ymgynghoriad<br><br>Bydd ymatebion holiadur tai a holiadur y Strategaeth yn bwydo fewn i'r rhan hwn |
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Gwybodaeth o'r Strategaeth Tai, Prosbectws Tai ac Asesiad o Angen |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Nac oes |



**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru – yn enwedig amcanestyniadau newid poblogaeth | |
| Anabledd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011 | |

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | Strategaeth yn nodi dulliau o gael mynediad i gymorth fel grantiau ar gyfer pobl a theulueoedd sydd ag anabledd | |
| Rhyw | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal | |
| Newid Rhyw | **Positif** | Nid oes gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Positif** | Er nad oes gwybodaeth penodol ar gael ar gyfer y grwp hwn mae Polisi Gosod Cyffredin yn adlewyrchu angenhion aelwyd am dy pan fo merch yn feichiog | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru<br>Dim ond 1.8% o'r boblogaeth ar adeg 2011 o gefndir ethnig nad yw'n wyn. Roedd y nifer hwn wedi tyfu ers cyfrifiad 2001.<br>Mae'r Strategaeth yn cefnogi agenda cydlyniant cymunedol sy'n cynnwys cydnabod pwysigrwydd bod yn rhagweithiol i annog goddefgarwch a pharch, yn enwedig yn wyneb mudo cynyddol o bosibl. | |
| Crefydd neu Gred | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru | |

| Y grwp / a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Positif**<br>**Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru<br><br>Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru<br><br>Yn yr un modd, dylai'r ffocws ar gydlyniant a chynwysoldeb yn y strategaeth gefnogi effaith gadarnhaol. | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | **Positif** | Gweler Asesiad Effaith Iaith Gymraeg | |
| Hawliau Dynol | **Positif** | Gweler c15 | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** |
|---|

| Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol | *Yr effaith debygol | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | **Effaith isel** | Mae'r Strategaeth yn cefnogi fframwaith mesur Safonau Byw: Y gallu i fwynhau safon byw, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal am a cefnogi pan fo angen | |

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.
- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith |
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Adolygu ar ôl 2 flwyddyn |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

### Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

### Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

## Atodiad 2 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg**

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;

**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .



| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Strategaeth Tai 2022-27** |
| **Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?** | **Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Hydref 2021** |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg



| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Bydd<br>Mae Gwasanaethau Tai yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, yn gweithio gyda phartneriaid sydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac yn comisiynu gwasanaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog |
| 1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd, bydd bod deunydd sydd yn ymwneud gyda'r Strategaeth hwn yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog |
| 1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? | Bydd, mae adeiladu tai, contractau newydd a phresennol a chomisiynu o wasanaethau yn cynnig a chreu cyfleoedd newydd a hyfforddi |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |
| 2.2 Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |
| 2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |

Tudalen 71

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | |
| 2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd, yn unol â Pholisi'r Cyngor |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| 3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau?<br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg?<br>• A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae'r Polisi yn gyd fynd gyda'n Strategaeth Tai a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i bobl allu aros o fewn eu cymuned ac ar yr Ynys drwy nifer o fentrau gwahanol.<br><br>Yn ôl y Cyfrifiad, gwelwyd gostyngiad o 27.1% yn y canran siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth rhwng 16-64 (sef oed gweithio), gostyngiad o 8% yn siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 oed; ond cynnydd o 16% yng nghanran siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar deuluoedd ifanc, annog siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd i ddychwelyd i'r ardal ac annog unigolion i ddysgu Cymraeg er mwyn o leiaf cynnal yr iaith. Mae darparu tai sydd ddigon fforddiadwy a sydd o'r math cywir i gyfarch yr angen yn yr ardal leol ac mewn Canolfan Gwasanaeth Lleol (sy'n leoliad cynaliadwy i fyw ynddo) yn ffordd bwysig o wneud hyn. |
| 3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| cyfrwng Cymraeg?<br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Nid yw'n cyflwyno gwasanaeth newydd gan mai Strategaeth ydyw |
| 4.2 Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016? | Bydd, gan gynnig cyfleoedd i bobl gael mynediad i dai o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys. Gweler 3.1 uchod |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| • Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | |

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Cyfle i bobl gael mynediad i dai a chefnogaeth ar yr Ynys drwy nifer o ymyraethau |
| Yr effeithiau negyddol: | Dim effeithiau negyddol wedi eu hadnabod |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn perthynas a'r strategaeth yn cael ei ddarparu'n Gymraeg yn unol a safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad: | Data Cyfrifiad 2011 am nifer siaradwyr Cymraeg fesul oedran. |

| **6 - Ymgynghori** | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi methu rhywbeth? |
| 6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Ymgynghori ar ein safle a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfnod ymgynghori |
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Cyfeirio at Strategaeth Hybu'r Gymraeg a chryfhau cyswllt gyda'r Strategaeth hwn. |



| **7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| 7.1 Dylech grynhoi'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod |
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **24 Ionawr, 2022** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| |
|---|
| **3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
    - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
    - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
    - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
    - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

## 3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22

| |
|---|
| ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]<br>3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Ebrill, 2022**
**[Fersiwn ddyddiedig 17/01/22]**



**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (18/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21) - gohirio** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 | |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23 - gohirio** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| | Y Gymraeg:<br>• Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Adroddiad Adolygu |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | Diweddariad – Er Gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Cynllun Trosiannol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (24/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| Strategaeth Tai Lleol 2022/27 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb refeniw) -cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb gyfalaf) – cynigion drafft cychwynnol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (28/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22) - gohirio** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid (i'w gadarnhau) | |
| Cynllun Rheoli Hinsawdd (i'w gadarnhau) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Mawrth, 2022 (07/03/22)** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb; 2020/21 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Ch3: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Asesiad Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (i'w gadarnhau) |
| Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai (07/03/2022) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |

This page is intentionally left blank